

Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Ebrill 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Ebrill 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Cadeirydd y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC
Llafur Cymru
Torfaen

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymini



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Janet Finch-Saunders AC
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Siân Gwenllïan AC
Plaid Cymru
Arfon



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Michelle Brown AC
Annibynnol
Gogledd Cymru



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Julie Morgan AC
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion	6
1. Cefndir	8
2. Bagloriaeth Cymru: y cyd-destun	9
Beth yw Bagloriaeth Cymru?	9
Beth yw'r Dystysgrif Her Sgiliau	10
Asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru.....	11
Adolygiadau Cymwysterau Cymru	11
3. Gwerth a dealltwriaeth.....	14
Canfyddiadau o Fagloriaeth Cymru	14
4. Cymhwyster cyfatebol a thrylwyr	29
Y Dystysgrif Her Sgiliau	30
Derbyniad y Brifysgol.....	35
5. Mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol.....	41
Polisi Llywodraeth Cymru	41
Yr effaith ar ddysgwyr	45
6. Yr effaith ar y cwricwlwm ac addysg ehangach	50
Yr effaith ar y cwricwlwm	50
Yr effaith ar athrawon	54

Rhagair y Cadeirydd

Ers ein sefydlu fel Pwyllgor, mae pryderon ynghylch cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi codi o bryd i'w gilydd yn y newyddion ac yn ein mewnflychau etholaethol a Phwyllgor fel ei gilydd. Roedd adroddiadau anecdotaidd o brifysgolion yn dewis peidio â derbyn y cymhwyster, rhieni a disgyblion yn mynegi pryder ynghylch ei effaith ar ddewis a llwyddiant dysgwyr mewn meysydd pwnc eraill, ac athrawon yn teimlo nad oedd ganddynt yr adnoddau i gyflwyno'r Fagloriaeth yn peri pryder mawr inni.

Roeddem am glywed yn uniongyrchol gan y rhai ar y rheng flaen - disgyblion, rhieni, athrawon, cyflogwyr a phrifysgolion - ynghylch eu profiadau o Fagloriaeth Cymru i ganfod pa mor eang oedd yr heriau a fynegwyd inni. Gwelsom y gellir priodoli canfyddiadau negyddol o Fagloriaeth Cymru i ddiffyg dealltwriaeth o ddiben a chynnwys y cymhwyster, a'r anghysondeb wrth ei darparu ledled Cymru. Serch hynny, canfuwyd hefyd fod dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru yn tyfu a chyda hynny, mwy o ymdeimlad o'r gwerth y gall ei hychwanegu at sgiliau a phrofiadau dysgwyr.

Er gwaethaf ein hamheuron cychwynol, dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd gennym rinwedd amlwg o astudio Bagloriaeth Cymru, yn enwedig o ran ehangder y sgiliau a ddatblygir gan ddysgwyr ar gyfer dysgu yn y dyfodol, cyflogaeth a bywyd. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad bod y ffordd y mae'r cymhwyster yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd a'r cyhoeddusrwydd o'i amgylch yn cael effaith niweidiol ar ei werth gwirioneddol a thybiedig.

Mae angen rhoi sicrwydd i ddysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg fod Bagloriaeth Cymru yn cael ei gwerthfawrogi ar lefel sy'n gymesur â'r ymdrech sydd ei angen i'w chwblhau. Mae cyflogwyr a phrifysgolion - rhanddeiliaid allweddol a chymwynaswyr bwriadedig y cymhwyster - yn parhau i fod heb wybodaeth ddigonol am y cymhwyster. Mae canolfannau dysgu yn parhau i fod yn bryderus o anghyson o ran eu dull o addysgu, ac mae dyblygu ymdrech a gofynion asesu na ellir eu rheoli yn arwain at athrawon a dysgwyr sydd wedi cael digon.

Er mwyn gwireddu potensial Bagloriaeth Cymru yn llawn, mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn fel mater o flaenoriaeth. Mae angen eglurder hefyd ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru o ran mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol - mae angen nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Fagloriaeth ar gyfer pob ysgol a choleg. Os cyflwynir y newidiadau yr ydym yn eu hamlinellu, credwn fod dyfodol Bagloriaeth Cymru - a'i dysgwyr - yn ddisglair.

Lynne Neagle AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad cliriach ynghylch ei gweledigaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru, a bod y datganiad yn cael ei ategu gan ganllawiau sy'n rhoi manylion am ei disgwyliadau o ran cysondeb darparu'r cymhwyster yng Nghymru a'r adnoddau y dylai ysgolion a cholegau sicrhau eu bod ar gael i addysgu'r cymhwyster yn effeithiol.....Tudalen 28

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio i ddarparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth â ffocws ar gyfer busnesau a sefydliadau addysg uwch. Dylai'r ymgyrch hon geisio cynyddu dealltwriaeth o'r sgiliau a ddatblygir o dan Fagloriaeth Cymru ac annog mwy o gydweithredu gyda'r sectorau hynny wrth ei dylunio a'i darparu, er mwyn sicrhau eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth.....Tudalen 28

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i ddarparu rhestr gynhwysfawr o'r prifysgolion hynny sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru yn eu cynigion. Dylai'r rhestr hon gynnwys manylion am sut yn union y mae pob prifysgol yn trin Bagloriaeth Cymru, a ph'un a yw'n:

- cael ei derbyn fel cymhwyster Safon Uwch cyfatebol;
- cael ei defnyddio i alluogi cynnig amgen drwy ostwng y gofynion gradd mewn pynciau eraill;
- cael ei hystyried ddim ond fel rhan o ddatganiad personol ymgeisydd.
..... Tudalen 40

Argymhelliad 4. Bod Cymwysterau Cymru yn ystyried ar unwaith a yw un Swyddog Cyswllt Addysg Uwch yn ddigonol i sefydlu darlun o'r dirwedd addysg uwch mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohoni ar draws y sector. Dylid ailddyrranu adnoddau yn ôl yr angen i roi mwy o ffocws ar y maes hwn yn ogystal â darparu mwy o gynnydd, gan gynnwys penodi Swyddog(ion) Cyswllt Addysg Uwch ychwanegol os bydd angen.
..... Tudalen 40

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau cryfach a mwy manwl ar y polisi sy'n ymwneud â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Dylai'r canllawiau hyn nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, a dylai fod yn destun asesiad trylwyr a chynhwysfawr o effaith ar hawliau plant.....Tudalen 49

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i gadarnhau:

- a yw dysgwyr mewn ardaloedd ar y ffin yn dewis astudio yn Lloegr er mwyn osgoi Bagloriaeth Cymru; ac
- a yw colegau a sefydliadau chweched dosbarth yn defnyddio hyblygrwydd o ran Bagloriaeth Cymru i farchnata atyniad i ddysgwyr,

ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis ar ei chanfyddiadau. Tudalen 49

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod iechyd meddwl a lles dysgwyr yn flaenllaw yn yr holl ystyriaethau a'r gweithgarwch y mae'n ymgymryd â hwy mewn perthynas â dyfodol Bagloriaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymgysylltu â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod iechyd meddwl a lles dysgwyr wrth wraidd gwaith ei Grŵp Dylunio.....Tudalen 49

Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i fonitro'n barhaus effaith Bagloriaeth Cymru a diwygiadau addysg eraill ar y cwricwlwm ehangach.Tudalen 57

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r modd y caiff Bagloriaeth Cymru ei darparu drwy:

- sicrhau bod addysg gychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus yn addas at y diben ar gyfer ei darparu;
- sicrhau bod system ar gyfer rhannu arfer gorau yn cael ei sefydlu ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru;
- cyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu'r disgwyliad y bydd pob ysgol yn dilyn arfer gorau drwy gael Cydlynnydd Bagloriaeth Cymru dynodedig ac arbenigol;
- archwilio a oes angen deunyddiau/adnoddau Bagloriaeth Cymru gwell, ac os felly, eu darparu. Tudalen 57

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ers cyflwyno'r Bagloriaeth Cymru newydd yn 2015 yn cael eu hadolygu'n systematig a'u defnyddio ochr yn ochr â chasgliadau Adroddiad Wavehill a'r canlyniadau sydd i ddod yn sgil gwaith Grŵp Dylunio Cymwysterau Cymru i lywio'r gwaith o ddylunio, gweithredu, darparu adnoddau a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.....Tudalen 58

1. Cefndir

1. Ym mis Mai 2018, cytunwyd i gynnal ymchwiliad i statws y cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig, a gyflwynwyd ar gyfer addysgu o fis Medi 2015.
2. Cytunwyd i edrych ar y cymhwyster yng Nghyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) ac ôl-16, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
 - y graddau y mae dysgwyr, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg mewn ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;
 - y graddau y mae dysgwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg mewn ysgolion a cholegau, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch o'r farn bod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfwerth, trwyadl;
 - statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys targed Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol, ac effaith bosibl y dull gweithredu hwn;
 - yr effaith ehangach y mae astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ei chael ar bynciau eraill y cwricwlwm ac ar y ddarpariaeth addysg;
 - manteision ac anfanteision Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr, ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.
3. Gwnaethom gasglu tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2018, a darperir rhestrau llawn ohonynt yn Atodiad A a B i'r adroddiad hwn. Cynhaliwyd arolygon hefyd gyda rhieni a dysgwyr, a sefydliadau addysg uwch ledled y DU a cheisiwyd barn cyflogwyr drwy lwyfan deialog ar-lein.¹ Cynhaliwyd trafodaeth gyda gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a buom yn ymweld â Bangor, Llanelli a Chrughywel i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc sy'n astudio, neu a fu'n astudio yn flaenorol, gymhwyster Bagloriaeth Cymru.²
4. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

¹ Mae dadansoddiadau llawn o [ganlyniadau'r arolygon ar gyfer rhieni a dysgwyr](#), a [chanlyniadau'r arolwg ar gyfer sefydliadau addysg uwch](#), wedi'u cyhoeddi. Mae [canlyniadau o'r llwyfan deialog](#) ar gael hefyd, fodd bynnag, roedd lefel yr ymgysylltiad yn isel – trafodir hyn yn fanylach mewn pennod diweddarach yn yr adroddiad hwn.


² Mae nodiadau ar gyfer [y grwpiau trafod](#) a'r [ymweliadau ledled Cymru](#) wedi'u cyhoeddi.

2. Bagloriaeth Cymru: y cyd-destun

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn fframwaith sy'n ceisio galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth a bywyd yn y dyfodol. Cyflwynwyd y cymhwyster ar ei ffurf bresennol ym mis Medi 2015, gan adeiladu ar y Fagloriaeth Cymru flaenorol a gyflwynwyd ychydig dros ddegawd yn gynharach.

Beth yw Bagloriaeth Cymru?

5. Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnwys nifer o gymwysterau cydran:
 - y cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sy'n seiliedig ar sgiliau;
 - TGAU mewn Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd. Gellir defnyddio elfennau llythrennedd a rhifedd cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru hefyd; a
 - dewis o gymwysterau ategol - TGAU, Safon Uwch neu gymhwyster galwedigaethol.



Ffynhonnell: Cymwysterau.Cymru

6. Dyfernir Bagloriaeth Cymru ar dair lefel: Sylfaen (lefel 1) yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16; Cenedlaethol (lefel 2) yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16; ac Uwch (lefel 3) ar lefel ôl-16.


7. Dyfernir Bagloriaeth Cymru i fyfyrwr drwy ennill y cyfuniad penodol o gymwysterau ar gyfer pob lefel. Caiff Bagloriaeth Cymru ar bob lefel ei graddio fel llwyddiant neu fethiant.

Ailddylunio Bagloriaeth Cymru

8. Cyflwynwyd fersiynau newydd o Bagloriaeth Cymru ar lefelau Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2015 yn dilyn argymhellion a wnaed yn yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*.³ Mae dyluniad Bagloriaeth Cymru bellach yn sylweddol wahanol i'w rhagflaenydd ac mae wedi arwain at newid sylweddol o ran arfer mewn ysgolion a cholegau.⁴

Beth yw'r Dystysgrif Her Sgiliau

9. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ffurfio un rhan o lefelau Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch Bagloriaeth Cymru. Mae'n gymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau, sy'n cynnwys pedair cydran:



Ffynhonnell: [Cymwysterau Cymru](#)

³ Llywodraeth Cymru [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#), Tachwedd 2012

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB FI 01 - Cymwysterau Cymru

10. Nod pob un o'r pedair cydran yw datblygu sgiliau ym meysydd llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd, ac effeithiolrwydd personol.

11. Mae Cymwysterau Cymru yn nodi, ar lefel Sylfaen a Chenedlaethol, bod y Dystysgrif Her Sgiliau yr un maint â TGAU, ac ar lefel Uwch mae'r Dystysgrif yr un maint â Safon Uwch. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn cario pwyntiau tariff UCAS.⁵

Asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru

12. Mae holl gydrannau'r Dystysgrif yn cael eu hasesu gan athrawon mewn ysgolion a cholegau. Ar ôl safoni mewnol, caiff sampl o waith ei safoni gan y corff dyfarnu, CBAC, i sicrhau tegwch a chysondeb ar draws canolfannau.

13. Caiff pob elfen o'r Dystysgrif ei marcio'n unigol a rhaid i ymgeisydd basio'r pedair cydran i gael gradd ar gyfer y Dystysgrif. Os nad yw dysgwr yn cyflawni'r holl gymwysterau ategol angenrheidiol i basio Bagloriaeth Cymru, ond mae wedi cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau, gellir dyfarnu'r Dystysgrif o hyd.

	Tystysgrif Her Sgiliau	Bagloriaeth Cymru Gyfan
Lefel Sylfaen 1	Llwyddiant neu Lwyddiant*	Llwyddiant neu Fethiant
Lefel Cenedlaethol 2	A - C	Llwyddiant neu Fethiant
Lefel Uwch 3	A* - E	Llwyddiant neu Fethiant

Adolygiadau Cymwysterau Cymru

Adroddiad 2016

14. Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, roedd Cymwysterau Cymru yn monitro ac yn adolygu'r broses o gyflwyno'r Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn 2015. Cyhoeddwyd adroddiad cychwynnol ynglŷn â gweithredu'r Bagloriaeth Cymru newydd ym mis Mawrth 2016.⁶

15. Roedd adolygiad 2015-16 yn ystyried adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau ategol ar gyfer y Bagloriaeth Cymru newydd, trefniadau gweinyddu ac e-bortffolio, asesiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau, strwythur Bagloriaeth Cymru, ac ystyriaethau polisi ehangach.

⁵ Cymwysterau Cymru, [Tystysgrif Her Sgiliau](#), fel ar 27 Chwefror 2019

⁶ Cymwysterau Cymru, [Adolygiad o'r broses o gyflwyno'r Bagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015](#), Mawrth 2016

16. Nododd Cymwysterau Cymru gefnogaeth eang ar gyfer Bagloriaeth Cymru a'i nodau o ddatblygu sgiliau a phrofiadau dysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach a chyflogaeth. Nododd hefyd fod rhanddeiliaid yn cytuno â diwygio a chryfhau Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at nifer o bryderon ynglŷn â Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd fel rhan o'r adolygiad, gan gynnwys:

- effaith ymarferol mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol;
- effaith yr angen i bob cymhwyster a gymerir fel rhan o Bagloriaeth Cymru gael eu cymryd ar yr un lefel (1, 2 neu 3);
- dichonoldeb a'r gallu i reoli disgwyliadau a osodir gan y polisi cyllido;
- diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Bagloriaeth Cymru ymhlith staff, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

17. Ymhlith argymhellion adroddiad 2016 roedd un yn awgrymu cynnal adolygiad pellach i ystyried strwythur ac asesiad y Dystysgrif Her Sgiliau.

Adroddiad 2018

18. Mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad 2016, comisiynodd Cymwysterau Cymru Wavehill Ltd a'r Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain i gynnal adolygiad o ddyluniad y Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad desg o'r prif ddogfennau sy'n cefnogi'r broses o ddarparu Bagloriaeth Cymru, grwpiau ffocws gyda sampl o ysgolion a chanolfannau addysg bellach, a chyfweiliadau gydag athrawon, darlithwyr a chydlynwyr Bagloriaeth Cymru. Ni cheisiwyd safbwyntiau gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

19. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr *Adolygiad o fodel dylunio ac asesu y Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru* (Adroddiad Wavehill).⁷ Canfu'r adolygiad fod gan ddiben cyffredinol Bagloriaeth Cymru egwyddorion y gellir eu canmol, gyda'r Heriau a'r Prosiect Unigol yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu "sgiliau hynod berthnasol". Fodd bynnag, daeth i'r casgliadau a ganlyn hefyd:

- mae cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau ochr yn ochr â'r cwricwlwm yn gymhleth i'w reoli ac yn gofyn am gydlyniant helaeth o ran y cwricwlwm;

⁷ Wavehill Ltd a'r Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain [Adolygiad o fodel dylunio ac asesu y Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru](#), Ebrill 2018

- mae dyluniad y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhleth ac mae ailadrodd o ran cynnwys, canlyniadau dysgu, dulliau asesu a meini prawf asesu ar draws pob lefel;
- mae ailadrodd ar draws pedair cydran y Dystysgrif Her Sgiliau;
- roedd athrawon yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ddyluniad Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau ond ei bod yn anodd ei egluro i ddysgwyr a rhieni, athrawon eraill ac mewn rhai achosion, uwch-reolwyr;
- nid oedd dysgwyr yn deall y Dystysgrif Her Sgiliau yn llawn ac roedd dryswch ynghylch y ffordd y caiff ei hasesu.

20. Gwnaeth Adroddiad Wavehill wyth argymhelliad a derbyniwyd y cyfan gan Cymwysterau Cymru. Roedd y rhain yn ymwneud ag adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru, codi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau, a gwella datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hefyd yn argymhell y dylai Cymwysterau Cymru adolygu dyluniad y Dystysgrif, gan gynnwys ei strwythur a'i chynnwys.

Y Grŵp Dylunio

21. Mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu gweithgor (cyfeirir ato fel "y grŵp dylunio") er mwyn helpu i ddatblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newid yn seiliedig ar argymhellion Adroddiad Wavehill. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CBAC, Estyn, y consortia rhanbarthol, ColegauCymru ac arbenigwyr asesu annibynnol.

22. Defnyddir grŵp ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr, athrawon, cyflogwyr a phrifysgolion i "fireinio a dilysu" cynigion y grŵp dylunio. Sefydlwyd grŵp o ymarferwyr hefyd, sy'n cynnwys tua 25 o athrawon sy'n darparu'r Dystysgrif Her Sgiliau o ystod eang o ysgolion a cholegau ledled Cymru, i brofi cynigion a darparu adborth i lywio datblygiadau.⁸

⁸ Cymwysterau Cymru, Tystysgrif Her Sgiliau, fel ar 27 Chwefror 2019

3. Gwerth a dealltwriaeth

Mae tystiolaeth i'n hymchwiliad yn awgrymu bod dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru yn gymharol isel ymhlith grwpiau allweddol, yn enwedig rhieni, cyflogwyr a phrifysgolion. Mae'r gwerth a briodolir i'r cymhwyster yn tueddu i gyd-fynd â dealltwriaeth yr unigolyn ohono - po fwyaf yw'r ddealltwriaeth, y mwyaf y mae'n tueddu i gael ei werthfawrogi. Mae angen gwneud gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru os yw am gael ei gwerthfawrogi gan y rhai y mae'n bwriadu cael effaith gadarnhaol arnynt.

23. Nod Bagloriaeth Cymru yw galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth a bywyd yn y dyfodol. Roedd tystiolaeth i'n hymchwiliad yn awgrymu bod dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru yn amrywio'n sylweddol, fel y mae'r gwerth a briodolir iddi fel cymhwyster.

Canfyddiadau o Fagloriaeth Cymru

24. Roedd y canfyddiadau o Fagloriaeth Cymru yn gymysg iawn yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym.

25. Nodwyd nifer o feysydd lle'r oedd y cymhwyster – yn enwedig y Dystysgrif Her Sgiliau – yn cael ei werthfawrogi. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i:

- feithrin sgiliau a hyder pobl ifanc;⁹
- caniatáu dewis a rheolaeth i ddysgwyr;¹⁰
- galluogi pobl ifanc i feddwl yn feirniadol;¹¹

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB06 – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB06 – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB22 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

- annog dysgu'n annibynnol;¹²
- datblygu sgiliau mewn pobl ifanc y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt;¹³
- galluogi pobl ifanc i gyrraedd y brifysgol (naill ai drwy ystyried y cymhwyster o fewn y broses dderbyn fel rhywbeth y gellir ei gyfnewid â chymwysterau Safon Uwch, drwy alluogi cynnig amgen, neu drwy gryfhau datganiad personol dysgwr).¹⁴

26. Serch hynny, tynnwyd sylw hefyd at nifer o enghreifftiau o ganfyddiadau gwael o Fagloriaeth Cymru, gan gynnwys:

- bod dysgwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a rhieni yn ei hystyried yn "ataliol" o ran ei heffaith ar ddewis pynciau, llwyddiant mewn cymwysterau eraill, a lles cyffredinol person ifanc;
- hyfforddiant ac adnoddau gwael ar gyfer staff sy'n arwain at brofiadau negyddol o Fagloriaeth Cymru, gan gynnwys ei hystyried mewn rhai achosion fel rhywbeth ychwanegol i athrawon sydd â gwarged yn eu hamserlenni yn hytrach nag arbenigedd yn y cymhwyster;¹⁵
- cred nad yw prifysgolion yn gwerthfawrogi a/neu'n derbyn y cymhwyster;¹⁶ a
- theimlad ymhlith dysgwyr ei fod yn ailadroddus ei natur rhwng lefelau Cyfnod Allweddol 4 ac Uwch.¹⁷

27. Roedd tystiolaeth gymysg ynghylch y graddau y mae Bagloriaeth Cymru yn amlygu dysgwyr i brofiadau a hyfforddiant mewn sgiliau na fyddent ar gael fel arall drwy gymwysterau safonol. Teimlai Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod Bagloriaeth Cymru yn gwneud hyn,¹⁸ fodd bynnag mynegodd

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, WB18 – Consortia Rhanbarthol Cymru

¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 328], 22 Tachwedd 2018

¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB22 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ac WB11 – NASUWT

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB22 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

¹⁷ Gweler tystiolaeth ysgrifenedig WB02 – Unigolyn, WB06 – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, WB10 – Comisiynydd Plant Cymru, WB12 – Coleg Sir Benfro ac WB13 – Colegau Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 245], 14 Tachwedd 2018 a Chofnod y Trafodion [paragraffau 46 a 55], 28 Tachwedd 2018

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB14 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

eraill – gan gynnwys pobl ifanc a rhieni a ymatebodd i'n harolwg¹⁹ – y farn y gellid datblygu'r sgiliau hyn drwy bynciau cwricwlwm eraill.

28. Soniwyd am y dylanwad ar ganfyddiadau dysgwyr a rhieni o astudio Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4. Eglurodd y bobl ifanc a siaradodd â ni yn ystod ein hymweliadau ledled Cymru nad oedd profiad gwael yn gynnar yn annog pobl i gymryd rhan yn frwdfrydig ar lefel ôl-16. Atgyfnerthwyd hyn gan Dafydd Evans, Cadeirydd Colegau Cymru, a ddywedodd wrthym:

“...don't underestimate the fact that if you had a poor experience of the Welsh Bacc at school, that perception is very difficult [...] to change.”²⁰

29. Awgrymodd rhai fod tair lefel Bagloriaeth Cymru yn cael eu hystyried yn wahanol, gyda chynrychiolwyr addysg bellach o'r farn bod gwerth y lefelau sylfaenol a chenedlaethol yn ddadleuol.²¹

30. Tynnwyd sylw at y duedd i ddysgwyr weld gwerth a manteision astudio Bagloriaeth Cymru yn ôl-weithredol.²² Rhoddodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru grynodedb fel a ganlyn:

“Discussions with former students who return to visit school after they have left to go to university or into work reveal that, in retrospect, they understand and value greatly the benefits of having done the qualification, but acknowledge that, at the time, they did not. This is not an unusual response with regard to many aspects of education and shows how perspectives can change with time and experience. Interestingly, we have come across a few cases of students who did not do the WBQ and subsequently have stated that they felt they missed out on some important and potentially valuable learning experiences.”²³

¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, crynodeb o ganlyniadau'r arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018

²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 127], 28 Tachwedd 2018

²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 48-53], 28 Tachwedd 2018

²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 24, 197 a 303], 14 Tachwedd 2018 a Nodiadau grwpiau rhanddeiliaid a Nodiadau o ymweliadau ysgol, Mawrth 2019

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB14 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

FEL RHAN O’N HAROLWG AR FAGLORIAETH CYMRU GOFYNNWYD I DDYSG-WYR A RHINI...

...pa mor ddefnyddiol yw Bagloriaeth Cymru wrth baratoi ar gyfer gwaith a bywyd

Teimlai dros **50 y cant** o’r ymatebwyr fod Bagloriaeth Cymru yn llai defnyddiol na chymwysterau eraill wrth baratoi ar gyfer gwaith a bywyd.

Nid oedd **66 y cant** o’r ymatebwyr yn teimlo y byddai Bagloriaeth Cymru yn werthfawr i yrfaeod yn y dyfodol.

...ynghylch faint o amser mae’n ei gymryd i astudio Bagloriaeth Cymru

Teimlai bron i **70 y cant** o’r ymatebwyr fod Bagloriaeth Cymru yn cymryd mwy o amser na chymwysterau ‘cyfwerth’ eraill.

...pa effaith a gafodd astudio Bagloriaeth Cymru ar astudio cymwysterau eraill

Teimlai hanner yr ymatebwyr ei fod wedi cael effaith negyddol, gyda **57 y cant** yn dweud ei fod yn cymryd gormod o amser

...pa sylwadau eraill a oedd ganddynt am Fagloriaeth Cymru

Soniodd llawer o’r ymatebwyr am effaith Bagloriaeth Cymru ar gael lle mewn prifysgol



Mae CBC wedi cael effaith ENFAWR a chadarnhaol iawn ar fy nyfodol a’r prifysgolion y gallaf wneud cais iddynt. Mae hyn oherwydd ei fod yn cyfrif fel cymhwyster Safon Uwch llawn sy’n fuddiol iawn i rywun fel fi, sy’n llawer gwell mewn pynciau gwaith cwrs. Mae’r ffaith bod gennyf CBC yn golygu bod gennyf 4 cymhwyster Safon Uwch a gallaf ddweud bod gennyf A mewn cymhwyster Safon Uwch.*



Rwy’n credu bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cymryd amser oddi ar y gwersi y byddai’n well gennyf fod ynddynt/y mae arnaf eu hangen ar gyfer y dyfodol. Os penderfynaf fynd i’r brifysgol mewn gwlad arall, megis Lloegr neu’r Alban, rwy’n teimlo y bydd yn dda i ddim, ac na fyddant yn chwilio am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.”

Roedd rhai ohonoch o’r farn bod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster da ond roeddech eisiau dewis ynghylch a ddylid ei astudio ai peidio.



Ni ddylai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn enwedig ar Safon Uwch, fod yn orfodol. Dylid caniatáu i ddysgwyr ei astudio os ydynt yn dewis gwneud, ond ni ddylid gorfodi’r rhai nad ydynt am ei astudio/nad oes angen iddynt ei astudio i wneud hynny.

Hyrwyddo a dadansoddi’r arolwg

Hysbysebwyd yr arolwg drwy rwydweithiau pwyllgorau, Twitter, ymweliadau ag ysgolion gan dîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad a gweithdai Allgymorth.

Casglwyd **1,203** o ymatebion, lle’r oedd **777** ohonynt gan bobl ifanc a **426** gan rieni/gwarcheidwaid. Nid yw’n darparu sampl gynrychioliadol o’r boblogaeth.

Dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru

31. Nododd y mwyafrif o'r rhai a roddodd dystiolaeth lefel y ddealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru fel ffactor dylanwadol allweddol yn y gwerth a briodolir i'r cymhwyster. Rhoddwyd crynodeb o hyn yn ein trafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, a adroddodd fel a ganlyn:

“The more it is understood, the more it is valued [...] acceptance is growing and its value is increasing.”²⁴

32. Serch hynny, roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn dangos yn glir bod lefel annigonol o ddealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru ymhlith rhieni,²⁵ cyflogwyr,²⁶ gweithwyr proffesiynol ym maes addysg nad oes ganddynt brofiad uniongyrchol o'r cymhwyster,²⁷ a sefydliadau addysg uwch²⁸.

33. Mewn perthynas â chyflogwyr, cawsom wybod bod dealltwriaeth gyffredinol o Fagloriaeth Cymru yn isel, ond ei bod yn amrywio yn ôl maint y cyflogwr. Dadleuwyd bod busnesau mwy o faint yn fwy tebygol o allu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau na'u cymheiriaid llai o faint.²⁹ Cawsom wybod bod y rhai a oedd yn ymwybodol o'r cymhwyster ac yn ei deall yn gwerthfawrogi'r sgiliau y mae'n eu datblygu mewn pobl ifanc.³⁰

34. O ran rhieni, cawsom wybod bod llawer o waith i'w wneud er mwyn eu helpu i ddeall bod cymwysterau y tu hwnt i Safon Uwch yn bodoli.³¹ Fodd bynnag, nodwyd, er nad yw llawer o rieni yn deall neu'n gwerthfawrogi Bagloriaeth Cymru i ddechrau, pan gaiff ei gosod yng nghyd-destun addysg uwch, mae rhieni'n datblygu barn fwy cadarnhaol.³² Eglurodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a

²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau ar drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, Mawrth 2019

²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 129], 28 Tachwedd 2018

²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 15], 28 Tachwedd 2018

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB18 – Consortia Rhanbarthol Cymru

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB18 – Consortia Rhanbarthol Cymru

²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 228], 22 Tachwedd a [pharagraff 12], 28 Tachwedd 2018

³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau ar drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, Mawrth 2019

³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 129], 28 Tachwedd 2018

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, WB13 - ColegauCymru

Cholegau fod lefel y brwdfrydedd a'r gefnogaeth a ddangosir gan arweinwyr a staff ysgolion yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiad rhieni o Fagloriaeth Cymru.³³

35. O ran sefydliadau addysg uwch, cawsom wybod bod dealltwriaeth yn amrywio yn ôl tiwtoriaid derbyn unigol.³⁴ Er bod rhai wedi nodi gwelliannau yn nealltwriaeth prifysgolion o Fagloriaeth Cymru, teimlwyd bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth.³⁵ Awgrymwyd bod hyn yn arbennig o angenrheidiol y tu hwnt i'r ffin gan fod dealltwriaeth o'r cymhwyster yn tueddu i leihau ymhellach y teithir o Gymru.³⁶

36. Yn ogystal â phriodoli rhywfaint o'r diffyg dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru i'r ffaith ei bod yn gymhwyster cymharol newydd,³⁷ nodwyd ei chymhlethdod hefyd gan rai fel rhwystr. Eglurodd Rebecca Williams o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru:

“...rydw i'n credu ei fod o'n gymhwyster anodd ei ddeall yn ei hanfod. Mae yna bethau y gellid eu gwneud i'w symleiddio o ran strwythurau a chynnwys ac asesu, fel y mae adroddiad Cymwysterau Cymru wedi dweud, a fyddai efallai'n hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad, wedyn, ymhlith athrawon a dysgwyr a rhieni fel ei gilydd.”³⁸

37. Nodwyd enw'r cymhwyster hefyd fel rhwystr posibl i ddealltwriaeth gan ddysgwyr³⁹ a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg⁴⁰:

“...nid ydw i'n credu bod hyd yn oed y teitl yn help. Hynny ydy, nid yw'n dweud beth sy'n digwydd yn y tun [...] rydw i'n meddwl bod yr her sgiliau yn well teitl, ac yn rhywbeth mae pobl yn ei ddeall llawer iawn yn well na'r fagloriaeth.”⁴¹

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB14 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 58], 28 Tachwedd 2018

³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 26, 240, 250 a 256], 14 Tachwedd a [paragraff 222], 22 Tachwedd 2018

³⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 66], 28 Tachwedd 2018

³⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 43], 14 Tachwedd a [paragraff 234], 22 Tachwedd 2018

³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 8], 14 Tachwedd 2018

³⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau ar drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, Mawrth 2019

⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 9], 28 Tachwedd 2018

38. Dywedodd rhai o'r tystion, er eu bod yn credu bod y bwriad gwreiddiol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn dda, nad oedd ei gweithrediad wedi bodloni'r disgwyliadau. Ymhelaethodd Nick Brazil, Dirprwy Bennaeth Coleg Gŵyr Abertawe ac yn cynrychioli Colegau Cymru:

"...the initial vision for the Welsh Bacc [...] was a really good, good vision [...] It was going to be an overarching qualification that developed these skills, and certainly employability skills, and I think it's lost its way since then [...] it's become very much focused on outcomes rather than necessarily skills."⁴²

39. Soniodd Estyn hefyd am y weledigaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru a'i chyflwyno wedyn:

"In recent years, communication around the WBQ has lacked coherence and this has impacted on how a range of important stakeholders view this qualification. Since its rollout, our national vision for this qualification has become blurred and its current position in the 14-19 curriculum is not understood well enough by teachers, leaders, pupils and parents."⁴³

40. Rhoddodd Hannah O'Neill o Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru grynodedb o'r farn gyffredinol ar lefel y ddealltwriaeth o Bagloriaeth Cymru:

"...there needs to be more information to employers, parents and the community about this qualification and its value as well, because, if you get them all on board with it, I think it does change the perspective from the children; they value it a lot more [...] It's a good qualification, there's a lot of merit within it, but I don't think it's as widely understood as other qualifications out there at the moment, because it is a new qualification."⁴⁴

41. Cydnabu Cymwysterau Cymru yr angen i gynyddu dealltwriaeth o Bagloriaeth Cymru a thynnwyd sylw at ganfyddiadau Adroddiad Wavehill:

"[canfu'r adroddiad] fod yna angen i gynyddu'r wybodaeth ac i egluro'n fwy syml beth mae'r cymhwyster, y dystysgrif her sgiliau, amdano, ei gwerth hi, sut mae'n gweithio [...] a bod hynny, yn rhannol, achos bod dyluniad y cymhwyster yn reit gymhleth. Ond mae hefyd yn werth

⁴² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 31], 28 Tachwedd 2018

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 - Estyn

⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 43], 14 Tachwedd 2018

dweud ei fod e'n gymhwyster newydd, mae'n gymhwyster arloesol, ac felly mae'n ddealladwy, mewn ffordd, fod yna angen parhau â'r ymdrech o egluro, o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymhwyster."⁴⁵

42. Eglurodd ei gynrychiolwyr, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cymhwyster fod:

- ymgyrch gyfathrebu yn cael ei rhoi ar waith mewn cydweithrediad â CBAC a Llywodraeth Cymru;
- Swyddog Cyswllt Addysg Uwch wedi'i benodi i ymgysylltu â phrifysgolion yng Nghymru a thu hwnt, a cholegau chweched dosbarth; ac
- gwaith yn mynd rhagddo i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr, er gwaethaf bod yn ymwybodol o'r anhawster "drwg-enwog" o ymgysylltu â busnes.⁴⁶

43. Wrth ymateb i'r pryderon ynghylch dealltwriaeth a chanfyddiad o Bagloriaeth Cymru, dywedodd Kirst Williams AC, y Gweinidog Addysg, (y cyfeirir ati fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar yr adeg y rhoddodd dystiolaeth):

"I as the Cabinet Secretary value the qualification very much indeed. I believe that it helps ensure that we are able to give our young people in Wales a broad and balanced curriculum, recognising the need to develop knowledge and skills in core subjects but recognising also that the purpose of education is to help prepare our children for further study and the world of work, and I believe that the skills challenge element of the baccalaureate does just that."⁴⁷

44. Nododd y Gweinidog fod statws Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster newydd yn her, ac roedd yn derbyn bod lle i wella bob amser. Roedd hefyd yn cydnabod yr angen i ymgymryd â gwaith parhaus i gyfleu ei gwerth ochr yn ochr â chymwysterau traddodiadol adnabyddus.⁴⁸

45. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch enw'r cymhwyster, dywedodd ei bod yn hapus i fyfyrion ar y dystiolaeth, ond rhybuddiodd:

⁴⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 234], 22 Tachwedd 2018

⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 221-223], 22 Tachwedd 2018

⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 12 Rhagfyr 2018

⁴⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 8-9], 12 Rhagfyr 2018

“...one of the issues that we have is developing an understanding of the brand and what that qualification is, and if we move away from ‘Welsh Bacc’ and suddenly start to call it something else, I think that could be even harder and set us back from where we are.”⁴⁹

Amrywioldeb yn y ddarpariaeth

46. Thema allweddol yn y dystiolaeth a ddaeth i law oedd yr amrywioldeb yn y ddarpariaeth o Fagloriaeth Cymru mewn gwahanol ysgolion a cholegau. Roedd y tystion yn cysylltu hyn â'r amrywiad yng ngwerth y cymhwyster ledled Cymru a'r ddealltwriaeth ohoni.

47. Roedd consensws cyffredinol lle mae Bagloriaeth Cymru yn cael ei chymryd o ddifrif gan ysgol, y caiff ei darparu'n dda. Eglurodd Neil Butler o NASUWT:

“Where a school leadership team takes the Welsh Bacc seriously, it is well resourced, it's well staffed, it's well presented.”⁵⁰

48. Pwysleisiwyd pwysigrwydd uwch-arweinyddiaeth gan y tystion. Dywedodd Rebecca Williams o UCAC wrthym:

“...mae'r arweinyddiaeth mor ddylanwadol ar sut y mae'n cael ei chyflwyno a'r flaenoriaeth y mae'r fagloriaeth yn ei chael, a wedyn y gwerth y mae pawb yn teimlo sydd i'r cymhwyster.”⁵¹

49. Cytunodd Tim Pratt o ASCL Cymru, ond amlygodd nad yw pob ysgol yn rhoi'r un pwysau ar Fagloriaeth Cymru:

“It is quite noticeable where you've got real commitment from the leadership of a school just how important the Welsh Bacc is viewed, whereas if you've got lukewarm support, it doesn't have the same impact. Now, what we are finding from our members is that the majority of schools do have that level of support, but there are still schools where it isn't perceived as that important.”⁵²

50. Priodolwyd yr amrywiaeth yn y dull o gyflwyno Bagloriaeth Cymru i amrywiaeth o ffactorau:

⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 12 Rhagfyr 2018

⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 29], 14 Tachwedd 2018

⁵¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 165], 14 Tachwedd 2018

⁵² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 188], 14 Tachwedd 2018

- diffyg parch a dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru mewn rhai ysgolion sy'n golygu eu bod yn ei defnyddio fel "llenwad". O ganlyniad i hyn, y staff sy'n ei darparu yw'r rhai sydd â chapasiti yn eu hamserlen yn hytrach nag arbenigedd neu frwdfrydedd penodol ar gyfer y cymhwyster;⁵³
- maint yr ysgol, gydag ysgolion llai yn benodol yn ei chael hi'n anodd cynnal patrymau staffio sefydlog yn y sefyllfa ariannol bresennol;⁵⁴
- yr hyfforddiant a ddarperir gan ysgolion i athrawon i ddarparu'r cymhwyster, gyda'r rheini heb hyfforddiant yn ei hystyried yn ychwanegiad digroeso at lwyth gwaith trwm;⁵⁵
- parodrwydd yr uwch-dîm arweinyddiaeth i ddyrannu adnoddau pwrpasol, a allai gynnwys Cydlynnydd Bagloriaeth Cymru, i'r cymhwyster;⁵⁶
- sefydlogrwydd cymharol y tîm sy'n darparu Bagloriaeth Cymru, a'r strwythur cysylltiedig y mae hyn yn ei roi i ddarparu'r cymhwyster;⁵⁷ a
- diffyg rhannu arfer gorau, gwybodaeth a datblygiad proffesiynol i, o fewn, a rhwng canolfannau dysgu.⁵⁸

51. Dangoswyd yr amrywiaeth yn y ddarpariaeth o Fagloriaeth Cymru gliraf gan y cyfrifon a roddwyd inni gan ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg o'r ffordd y mae'r cymhwyster wedi'i hamserlennu. Tra bod rhai yn trefnu gwersi rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, roedd eraill yn gadael rhan sylweddol o'r gwaith i ychydig wythnosau ar ddiwedd y tymor.⁵⁹

52. Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at adborth yr oedd wedi'i gael gan bobl ifanc am yr amrywioldeb yn narpariaeth Bagloriaeth Cymru, a'r dylanwad y mae canfyddiadau athrawon o'r cymhwyster yn ei gael arnynt:

⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 4], 14 Tachwedd 2018

⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 161], 14 Tachwedd 2018

⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 66], 14 Tachwedd 2018 a Nodiadau ar drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau ar drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 6], 14 Tachwedd 2018

⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 16], 14 Tachwedd 2018

⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau ar drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid a Nodiadau o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

“Young people have told my office that at both Key Stage 4 and post-16 ‘loads of teachers hate Welsh Bacc’ and explained that this makes it hard for them to feel enthusiastic about it themselves. This is reinforced by Estyn’s findings that young people’s attitudes generally reflect the status accorded to the qualification by their teachers and noting that while there are generally positive attitudes towards the SCC among young people there is also ‘too much variation’ in the enthusiasm and expertise among teachers delivering the course.”⁶⁰

53. Awgrymodd Cymwysterau Cymru y gallai fod amrywiaeth yn y ffordd y mae ysgolion yn darparu Bagloriaeth Cymru oherwydd bod rhai wedi bod yn ei darparu am ddegawd tra bod eraill ond wedi’i haddysgu ers 2015. Dywedodd Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru, fod dulliau’n amrywio ar draws yr holl bynciau a bod newydd-deb a dull gwahanol o ddysgu’r Dystysgrif Her Sgiliau yn sicr o gynyddu’r amrywioldeb rhwng ysgolion.⁶¹

54. Mewn ymateb i’r dystiolaeth ar yr amrywioldeb rhwng canolfannau dysgu wrth ddarparu Bagloriaeth Cymru, roedd y Gweinidog a’i swyddogion yn cydnabod hyn fel “mater hysbys” ac yn tynnu sylw at y gwaith sy’n mynd rhagddo gan Grŵp Dylunio Cymwysterau Cymru i fapio arfer presennol a datblygu model mwy unffurf o gyflwyno’r Dystysgrif Her Sgiliau ledled Cymru.⁶²

55. Cydnabu’r Gweinidog y rôl hanfodol y mae arweinyddiaeth yn ei chwarae yn y maes hwn a chydabu y gall agwedd yr athro/athrawon sy’n darparu’r cwrs ddylanwadu’n drwm ar brofiadau myfyrwyr.⁶³ Dywedodd y Gweinidog:

“...if you’re being taught by someone who is telling you, ‘Oh, I don’t know why we’re having to do this’, then, obviously that’s going to colour how you feel about it.”⁶⁴

56. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y canfyddiadau amrywiol o Bagloriaeth Cymru, dywedodd:

“I suspect that that [learner negativity] has got more to do with how [the Welsh Bacc] is being delivered in their institutions than it has

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB10 - Comisiynydd Plant Cymru [Adroddiad Estyn y mae’r Comisiynydd yn cyfeirio ato yw [Cymwysterau Newydd](#), sef adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn ym mis Gorffennaf 2018]

⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 24], 22 Tachwedd 2018

⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 23-26], 12 Rhagfyr 2018

⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 12 Rhagfyr 2018

⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 12 Rhagfyr 2018

about the quality of the qualification. So, we need to keep ensuring that those who are tasked with this see it as important, communicate that to students, and have the confidence and the ability to deliver a really positive experience.”⁶⁵

57. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondebau mewn cefnogaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion, eglurodd y Gweinidog fod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â llwyth gwaith athrawon, dyblygu gwaith dysgwyr a dysgu proffesiynol ehangach (meysydd y rhoddir sylw manylach iddynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Ychwanegodd hefyd y bydd Bagloriaeth Cymru yn rhan o'r gyfres ehangach o fesurau perfformiad i sicrhau mwy o gysondeb yn y dull gweithredu, ond, yn ei barn hi, yn y pen draw mae'n golygu mai dysgu proffesiynol a hyfforddiant athrawon, Addysg Gychwynnol Athrawon, fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.⁶⁶

Cyflogwyr

58. Er mai nod Bagloriaeth Cymru yw datblygu sgiliau mewn pobl ifanc sy'n eu paratoi ar gyfer y gweithle, ychydig iawn o dystiolaeth a gawsom gan gyflogwyr. Gwrthododd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach ein gwahoddiad i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Ni chafwyd llawer o ymatebion yn sgil ein hymdrechion i geisio barn cyflogwyr drwy ymgysylltu ar-lein.

59. O'r rhai a ymatebodd, nododd y mwyafrif ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac felly canfyddiad isel, o Fagloriaeth Cymru.⁶⁷ Gwnaethant hwy, a'r gweithwyr proffesiynol ym maes addysg y buom yn siarad â hwy⁶⁸ awgrymu bod dealltwriaeth yn tueddu i fod yn well pan mae ganddynt blant sy'n astudio Bagloriaeth Cymru. Eglurwyd bod angen cyfathrebu'n well os yw'r sgiliau a ddatblygir fel rhan o Fagloriaeth Cymru am gael eu gwerthfawrogi a'u deall gan fusnesau.

60. Dywedodd Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru (CECA) wrthym:

- fod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sylweddol o Fagloriaeth Cymru yn ei sector;

⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 12 Rhagfyr 2018

⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 12 Rhagfyr 2018

⁶⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Crynodeb o ddeialog ar-lein gyda chyflogwyr](#), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018

⁶⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

- mae cyflogwyr sy'n deall y cymhwyster yn tueddu i'w werthfawrogi gan eu bod yn cydnabod y sgiliau a'r ymddygiadau y mae'n eu meithrin; ac
- nid yw'r cymhwyster wedi'i "werthu" mewn gwirionedd i gyflogwyr.⁶⁹

61. Er bod Cymwysterau Cymru wedi nodi mai'r sgiliau y mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn eu darparu yw'r hyn y mae cyflogwyr yn gofyn amdano,⁷⁰ cydnabu fod busnes yn "hynod o anodd" i ymgysylltu ag ef⁷¹.

62. Awgrymodd y cynrychiolwyr addysg bellach fod cynnwys cyflogwyr yn allweddol i sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad:

"... [yr] unig ffordd rydym ni'n mynd i brynu'r cyflogwyr i fewn yw os ydyn nhw yn teimlo perchnogaeth o beth sy'n cael ei wneud. Achos dyna, rwy'n meddwl, oedd y weledigaeth ar gyfer y fagloriaeth—ei fod o'n mynd i wella a chodi sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Ond rywsut neu'i gilydd rydym ni wedi colli'n ffordd [...] rydw i'n meddwl y buasai cael mwy o fewnbwn gan gyflogwyr yn help mawr."⁷²

63. Cydnabu'r Gweinidog fod llawer o resymau pam mae angen sicrhau gwaith gwell rhwng sefydliadau addysg a chyflogwyr ond y gall hyn fod yn anodd.⁷³ Dywedodd fod angen cyfathrebu'n gliriach â chyflogwyr ynghylch natur a gwerth y cymhwyster, yn enwedig gan eu bod yn aml yn fwy cyfarwydd â chymwysterau traddodiadol fel TGAU neu Safon Uwch, a chyfeiriodd at y gwaith sy'n mynd rhagddo rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC.⁷⁴

Addysg uwch

64. Roedd dealltwriaeth prifysgolion o Fagloriaeth Cymru, a'u parodrwydd i'w chynnwys fel rhan o gynnig derbyn, yn thema allweddol o ran pa mor werthfawr yw Bagloriaeth Cymru, yn enwedig ymhlith dysgwyr a rhieni. Ymdrinnir â derbyniad prifysgolion o Fagloriaeth Cymru yn fanylach ym mhennod 4.

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB07 - Y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil

⁷⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 328], 22 Tachwedd 2018

⁷¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 223], 22 Tachwedd 2018

⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 23], 28 Tachwedd 2018

⁷³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 40], 12 Rhagfyr 2018

⁷⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 41], 12 Rhagfyr 2018

EIN BARN NI AR WERTH A DEALLTWRIAETH

- 65.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod y canfyddiadau negyddol o Fagloriaeth Cymru i'w priodoli i ddiffyg dealltwriaeth o'i diben a'i chynnwys, a'r anghysondeb yn ei darpariaeth ledled Cymru. Serch hynny, mae hefyd yn amlwg yr ymddengys bod dealltwriaeth yn tyfu a chyda hynny, mae mwy o ymdeimlad o'r gwerth y gall y cymhwyster ei ychwanegu at sgiliau a phrofiadau dysgwyr.
- 66.** Nododd rhai dysgwyr fanteision clir o astudio Bagloriaeth Cymru, yn enwedig y sgiliau ar gyfer dysgu yn y dyfodol a chyflogadwyedd na fyddent fel arall yn cael eu datblygu gyda chymwysterau mwy traddodiadol. Yn nodedig, gydag ôl-ddoethineb mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod y canlyniadau cadarnhaol hyn. Roedd y tystion hynny o'r sectorau ysgol, addysg bellach, addysg uwch a busnes a ymgysylltodd â'n hymchwiliad yn cydnabod llawer o'r manteision hyn, yn enwedig o gofio'r galwadau gan fusnesau i gefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau o'r fath cyn ymuno â'r gweithlu. Yn sgil hyn, rydym yn cydnabod gwerth Bagloriaeth Cymru – a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn benodol – pan gânt eu darparu'n effeithiol.
- 67.** Serch hynny, ni ellir, ac ni ddylid, anwybyddu'r agwedd negyddol sy'n gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru. Mae gormod o enghreifftiau wedi dod i'r amlwg wrth i ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg wynebu llwythi gwaith na ellir eu rheoli, gan effeithio'n negyddol ar eu lles. Yn yr un modd, nid yw achosion o Fagloriaeth Cymru yn cael ei thrin fel "ychwanegiad" anghyfleus i'r hyn a ystyrir yn addysg "graidd" yn gwneud fawr ddim i annog, ennyn brwdfrydedd na thawelu meddyliau pobl ifanc sydd eisoes wedi'u hymestyn gan y disgwyliadau a'r heriau y maent yn eu hwynebu yn eu harddegau.
- 68.** Rhaid mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sail i'r safbwyntiau hyn. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod angen gwneud llawer mwy o waith i roi'r sicrwydd angenrheidiol i ddysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg bod y cymhwyster hwn yn cael ei werthfawrogi ar lefel sy'n gymesur â'r ymdrech sydd ei angen i'w gwblhau. Mae cyflogwyr a phrifysgolion – rhanddeiliaid allweddol a chymwynaswyr bwriadedig y cymhwyster – yn parhau i fod heb wybodaeth ddigonol am y cymhwyster. Mae canolfannau dysgu yn parhau i fod yn bryderus o anghyson o ran eu dull o addysgu, ac mae dyblygu ymdrech a gofynion asesu na ellir eu rheoli yn arwain at athrawon a dysgwyr sydd wedi cael digon.
- 69.** Er mwyn goresgyn canfyddiadau negyddol y cymhwyster, mae eglurder digonol ynglŷn â diben Bagloriaeth Cymru, ei manteision i bob grŵp allweddol, yr adnoddau sydd eu hangen ac sydd ar gael i'w darparu, a'r disgwyliadau ynghylch

y cysondeb ar gyfer ei haddysgu, yn allweddol. Er bod y dystiolaeth wedi dangos ei bod yn amlwg ei bod yn werth astudio Bagloriaeth Cymru, mae'r ffordd y mae'n cael ei darparu a'r cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â hi ar hyn o bryd yn cael effaith niweidiol ar ei gwerth gwirioneddol a thybiedig.

70. Yn sgil hyn, rydym yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Cymwysterau Cymru, drwy ei Grŵp Dylunio, i ystyried y newidiadau sydd eu hangen i wella strwythur, asesiad a rhwyddineb y Dystysgrif Her Sgiliau. Rydym hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog y bydd dysgu proffesiynol ac addysg gychwynnol athrawon yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau presennol i wireddu potensial Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu bod sefydliadau fel Estyn yn disgrifio'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer y cymhwyster fel un "aneglur".

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad cliriach ynghylch ei gweledigaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru, a bod y datganiad yn cael ei ategu gan ganllawiau sy'n rhoi manylion am ei disgwyliadau o ran cysondeb darparu'r cymhwyster yng Nghymru a'r adnoddau y dylai ysgolion a cholegau sicrhau eu bod ar gael i addysgu'r cymhwyster yn effeithiol.

71. Rydym yn cydnabod na fydd datrys problemau ar lefel ysgol yn unig yn galluogi'r rhai sy'n astudio Bagloriaeth Cymru i ffynnu mewn dysgu pellach neu mewn cyflogaeth. Mae cyfathrebu'n well mewn perthynas â'r cymhwyster, er mwyn cynyddu dealltwriaeth ymhlith rhieni, prifysgolion a chyflogwyr o'i fanteision, yn hanfodol. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC yn ei wneud i wella cyfathrebiadau, ond credwn fod angen ymgyrch fwy dwys, proffil uchel er mwyn newid canfyddiadau.

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio i ddarparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth â ffocws ar gyfer busnesau a sefydliadau addysg uwch. Dylai'r ymgyrch hon geisio cynyddu dealltwriaeth o'r sgiliau a ddatblygir o dan Fagloriaeth Cymru ac annog mwy o gydweithredu gyda'r sectorau hynny wrth ei dylunio a'i darparu, er mwyn sicrhau eu hymngysylltiad a'u cefnogaeth.

4. Cymhwyster cyfatebol a thrylwyr

Caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei meincnodi yn erbyn cymwysterau eraill, ac mae'r Dystysgrif a Bagloriaeth Cymru yn cael eu rheoleiddio yn yr un modd â chymwysterau Safon Uwch a TGAU. Dywedodd y rheoleiddiwr annibynnol hefyd eu bod yn ddarostyngedig i'r un lefel o graffu a monitro. Serch hynny, mae canfyddiadau o drylwyrredd a chywerthedd y cymhwyster yn gymysg ac mae ei derbyniad ymhlith prifysgolion yn parhau i fod yn ffynhonnell ddylanwad allweddol.

72. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol mewn perthynas â statws a chywerthedd Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster:

“Yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) mae dwy lefel: Sylfaenol a Chenedlaethol. Mae'r THS yn cyfateb i TGAU. I ennill Bagloriaeth Cymru yng CA4, rhaid i ddysgwyr gyflawni: Y Dystysgrif Her Sgiliau; TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith, a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd; a 3 TGAU pellach a gall 2 ohonynt fod yn gymwysterau cyfatebol galwedigaethol.

Yn y cyfnod Ôl-16 / Cyfnod Allweddol 5 (CA5) mae tair lefel: Ôl-16 Cenedlaethol, Ôl-16 Sylfaenol a lefel Uwch. Mae THS lefel Uwch yn cyfateb i bwyntiau tariff UCAS ac yn cyfateb i safon Uwch. Fel gyda CA4, er mwyn ennill Bagloriaeth Cymru Ôl-16 neu lefel Uwch, rhaid i ddysgwyr lwyddo mewn: Tystysgrif Her Sgiliau; TGAU Saesneg neu Gymraeg Iaith, a Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd (neu Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif Lefel 1 neu 2); a dewis o lefel 1, 2 neu 3 neu safon Uwch (yn dibynnu ar lefel y Bagloriaeth).”⁷⁵

73. Ymhlith y ffactorau pwysig a nodwyd fel rhai sy'n dylanwadu ar sut y mae pobl yn deall ac yn gweld y cymhwyster fel cymhwyster trylwyr sy'n cyfateb i gymwysterau mwy traddodiadol, mwy adnabyddus mae'r canlynol:

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB23 – Llywodraeth Cymru

- dryswch rhwng y Bagloriaeth Cymru gyffredinol a'r Dystysgrif Her Sgiliau fel un o'i gydrannau;⁷⁶
- amrywioldeb wrth ddarparu Bagloriaeth Cymru ar draws gwahanol ganolfannau dysgu;
- i ba raddau y mae prifysgolion yn derbyn y cymhwyster.⁷⁷

Y Dystysgrif Her Sgiliau

74. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu er bod graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau ers 2015 wedi helpu i adeiladu ei henw da fel cymhwyster cyfatebol, trylwyr, mae angen gwneud mwy o waith i atgyfnerthu ac ymestyn y farn honno ar draws rhanddeiliaid allweddol.⁷⁸

75. Canfuwyd er y gallai dysgwyr gydnabod gwerth posibl y sgiliau y mae'n eu datblygu, nid oedd llawer yn dweud y byddent yn dilyn y cymhwyster o ddewis.⁷⁹

76. At hynny, mae canlyniadau ein harolwg o rieni a phobl ifanc yn awgrymu, ar lefel ôl-16, y byddai'n well gan nifer ohonynt ddewis astudio Safon Uwch ychwanegol yn lle hynny.⁸⁰

Trylwyredd

77. Mynegodd undebau athrawon a rhanddeiliaid a fynychodd ein grwpiau trafod y farn bod y rhai sydd â chysylltiad uniongyrchol ag addysgu neu astudio'r

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT, WB13 – Colegau Cymru, WB14 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, ac WB18 – Consortia Rhanbarthol Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019.

⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 a Chofnod y Trafodion [paragraffau 45, 74 a 215], 14 Tachwedd a Chofnod y Trafodion [paragraff 236], 22 Tachwedd 2018

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 – Estyn

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 – Estyn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 a Chofnod y Trafodion [paragraffau 233 a 237], 14 Tachwedd 2018

⁸⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, crynodeb o ganlyniadau'r arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018

Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn deall ei thrylwyredd.⁸¹ Nodwyd hefyd bod graddio lefel Uwch y Dystysgrif Her Sgiliau wedi gwella ei statws.⁸²

78. Roedd rhai tystion o'r farn bod angen gwneud gwaith i sicrhau nad yw'r gofynion ar gyfer asesu a chyflawni Bagloriaeth Cymru yn rhy feichus.⁸³ Eglurodd Dafydd Evans, Cadeirydd ColegauCymru a Phrif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai:

“...it’s become a very rigorous, very large qualification. Actually, it’s probably larger than an A-level by now.”⁸⁴

79. Mewn cyferbyniad, mynegodd eraill y safbwyntiau a ganlyn am y cymhwyster:

- nid yw'n ddigon trylwyr ac mae'r disgyblion yn “cael eu bwydo â llwy”;⁸⁵
- mae marcio yn amrywio, gyda rhai elfennau'n cael eu marcio mewn modd “goddefol” a'r graddau wedi'u chwyddo;⁸⁶
- fe'i cyflwynwyd heb ddisgwyliadau wedi'u diffinio'n glir, sy'n tanseilio cymaroldeb y cymhwyster;⁸⁷
- mae dryswch ynghylch sut y mae'r cymhwyster yn cael ei raddio;⁸⁸ ac
- ychydig o drylwyredd sydd yn ei samplu a'i safoni.⁸⁹

80. Roedd rhai o'r bobl a roddodd dystiolaeth yn cwestiynu i ba raddau yr oedd sefydliadau addysg uwch yn ystyried bod y cymhwyster yn drylwyr. Crynhowyd hyn gan ColegauCymru a ddywedodd fod gan brifysgolion ymateb a dealltwriaeth

⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 a Chofnod y Trafodion [paragraffau 177 a 233], 14 Tachwedd 2018

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 – Estyn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 224], 14 Tachwedd 2018

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB14 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 22 Tachwedd 2018

⁸⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 71], 28 Tachwedd 2018

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB09 – Yr Undeb Prifysgolion a Cholegau ac WB11 – NASUWT a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT ac WB22 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB22 – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB13 – ColegauCymru

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT

amrywiol iawn o drylwyredd y Fagloriaeth Cymru Uwch ac awgrymodd fod angen gwneud rhagor o waith i archwilio i ba raddau yr oedd cynigion derbyn gwahanol yn seiliedig ar ganfyddiadau o drylwyredd y cymhwyster.⁹⁰

81. Roedd cynrychiolwyr addysg bellach yn holi a allai'r cymhwyster gyflawni popeth yr oedd yn bwriadu ei gyflawni:

“...perhaps the Welsh Bacc is trying to be all things to all men. At one end of the spectrum it's trying to be a rigorous qualification that stands up to a Russell university's expectations, and on the other hand, it's trying to develop softer skills and employment skills for people going into work from a vocational area. Can the same product deliver those two outcomes?”⁹¹

82. Aethpwyd ymlaen i ddweud er bod y bwriad y tu ôl i Fagloriaeth Cymru – i “greu pobl ifanc chwilfrydig” gyda sgiliau ar gyfer gwaith a dysgu pellach – yn gadarnhaol iawn, y tebygolwydd yw ein bod wedi colli peth o hynny drwy geisio ei ffitio i fod yn gymhwyster penodol.⁹²

83. Dywedodd Cymwysterau Cymru fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei rheoleiddio yn yr un modd â Safon Uwch a TGAU, gyda'r un lefel o graffu a monitro. Nododd ei farn, fel y rheoleiddiwr annibynnol, fod y cymhwyster yn drylwyr.⁹³

84. Mewn ymateb i'r dystiolaeth gymysg a ddaeth i law, dywedodd y Gweinidog Addysg ei bod yn credu bod graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau wedi bod yn fwy trylwyr a bod hynny wedi bod yn arbennig o bwysig wrth sicrhau bod gwerth gwirioneddol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw.⁹⁴ Eglurodd ei bod wedi'i meincnodi yn erbyn Safon Uwch, bod ganddi dariff UCAS yn gysylltiedig â hi, a chaiff ei defnyddio gan brifysgolion fel ffordd o gymhwyso sy'n sicrhau mynediad i brifysgol yn yr un ffordd ag y mae Safon Uwch. Felly, nid oes ganddi ddim pryderon ynghylch trylwyredd y cymhwyster.⁹⁵

85. Mewn perthynas â honiadau o “fwydo dysgwyr gyda llwy”, dywedodd y Gweinidog:

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB13 – ColegauCymru

⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 71], 28 Tachwedd 2018

⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 82], 28 Tachwedd 2018

⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 253], 22 Tachwedd 2018

⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 13], 12 Rhagfyr 2018

⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 12 Rhagfyr 2018

“...one of the reasons why universities like the qualification is that it’s very difficult, for instance, in the individual project work to be spoon-fed. It is very demanding of individual students, and is very difficult [...] with the Welsh Bacc, it is individual students that have to think, for instance, of their own project. You can’t get those off a shelf, and you can’t necessarily just find that information easily.”⁹⁶

86. Pan soniwyd wrth y Gweinidog fod ein hymweliadau wedi datgelu bod rhai dysgwyr yn cael cynnig rhestr fer a chyfyng o bynciau y gallent wneud eu prosiect personol arnynt, neu’n cael eu hannog i ailgyflwyno gwaith a wnaed ar lefel sylfaenol neu genedlaethol gyda rhai mân ychwanegiadau,⁹⁷ dywedodd y Gweinidog:

“...that would be really disappointing [...] denuding the students of the very valuable experience this qualification has to offer.”⁹⁸

87. Ychwanegodd y Gweinidog ei fod yn “gyfrifoldeb proffesiynol” i weithwyr proffesiynol ym maes addysg sy’n darparu’r cymhwyster “barchu” ei ethos a’r sgiliau y mae’n ceisio eu datblygu.⁹⁹

Cywerthedd

88. Pan holwyd NASUWT ac Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ynghylch cymaroldeb â chymwysterau eraill, credant fod graddio’r Dystysgrif Her Sgiliau wedi gwella canfyddiadau. Fodd bynnag, nodwyd bod safbwyntiau cymysg ynghylch cydraddoldeb cymwysterau yn dal i fodoli ymhlith eu haelodau. Priodolwyd hyn i lefel gymharol amlygiad athrawon i – a hyfforddiant ar – Fagloriaeth Cymru, gan nodi, po uchaf yw lefel eu dealltwriaeth, y trylwyredd a’r cydraddoldeb mwyaf yr oeddent yn tueddu i gysylltu â hi.¹⁰⁰

89. Dywedodd Cynghair Dysgu Byd-eang Cymru, er bod y sgiliau a ddatblygir o fewn y cymhwyster yn gynyddol bwysig i gyflogwyr, nad yw rhieni, dysgwyr ac

⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 12 Rhagfyr 2018

⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o’r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 66 a 68], 12 Rhagfyr 2018

⁹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 12 Rhagfyr 2018

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 64-66], 14 Tachwedd 2018

ysgolion yn ei hystyried yn gyffredinol fel rhywbeth sy'n cyfateb i TGAU a Safon Uwch.¹⁰¹

90. Pwysleisiodd UCAC nad oedd cymharu cymwysterau traddodiadol a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cymharu tebyg â thebyg:

“Mae hi'n gymhwyster hollol wahanol i lefel A, neu BTEC neu unrhyw beth arall [...] mae gofyn a ydy hi mor rigorous â'r lleill bron yn dod at y peth o gyfeiriad anghywir, oherwydd nid yw'n fater o ddysgu gwybodaeth. Mae'r pwyslais yn hollol wahanol, onid yw e? Mae e ynglŷn â rhoi mwy o ryddid i'r unigolyn a chreu unigolion mwy crwn ac maen nhw'n gwneud penderfyniadau ynglŷn ag i ba gyfeiriad maen nhw eisiau mynd ar gyfer y prosiect, a datblygu sgiliau—mae lot mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau. Felly, tra bod angen rhyw fath o gyfatebolrwydd o ran parch a statws, nid yw hi byth yn mynd i fod yr un fath; mae hi, yn ei hanfod, yn rhywbeth—mae'n greadur hollol wahanol.”¹⁰²

91. Mewn perthynas â chywerthedd, eglurodd Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru:

“In terms of 'equivalent', it comes down to what one means by 'equivalent'. So, if we took the advanced skills challenge certificate as an example, it's a level 3 qualification, which is the same as an A-level in terms of its position within the qualifications framework, and it's the same size in terms of the number of guided learning hours. So, it's the same size and it's the same level as an A-level, but it is a different qualification, and that's its strength in many ways, that it complements that academic route of the A-level. It attracts the same UCAS points as an A-level, which is a useful thing. So, it has equivalence, but it is different.”¹⁰³

92. Aeth ymlaen i ddweud:

“...if you think about the advanced skills challenge certificate, half of it is the individual project, which is about deeper learning in the subject that somebody wants to take on to university, So, it is very much aligned to their progression ambitions, and half of it is about the development of broader skills. Those broader skills are things that

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB15 - Cynghrair Dysgu Byd-eang Cymru

¹⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 72], 14 Tachwedd 2018

¹⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 254], 22 Tachwedd 2018

universities and employers value. So, the view would be that it does have a direct relationship with academic study and it does have a direct relationship with developing the skills that enable people to progress their learning even further. So, direct equivalence is perhaps different to value, and those things can get confused quite easily.”¹⁰⁴

93. Pan holwyd Mr Blaker ynghylch astudio yn y brifysgol, dywedodd mai tri cymhwyster Safon Uwch ochr yn ochr â'r Dystysgrif Her Sgiliau yw'r ateb gorau i ddysgwyr mae'n debyg.¹⁰⁵

94. Pan holwyd y Gweinidog Addysg ynghylch cywerthedd y Dystysgrif Her Sgiliau, dywedodd:

“It’s not a question of if this is an equivalent qualification; this is an equivalent qualification. There is a rigorous process that is undertaken to evaluate these qualifications independent of the Government, and it’s not a question. Is it a different model and a different way of studying? Yes, of course it is, and that’s why we do it. That’s why I want children and young people to do both sets of qualifications, because it does engage and expand the acquisition of knowledge and skills. So, yes, it’s different. Is it equivalent? Yes, it is, and that’s why, since the graded qualification came in, it is regarded by independent bodies as an equivalent to an A-level, and it has a tariff for UCAS in the same way as A-levels would have tariffs.”¹⁰⁶

Derbyniad y Brifysgol

95. Roedd sefydlu darlun clir o'r graddau y mae sefydliadau addysg uwch yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn her sylweddol.

96. Gwrthodwyd gwahoddiadau i ddarparu tystiolaeth ar ran prifysgolion gan Prifysgolion Cymru, ac roedd ein gallu i gadarnhau a oedd prifysgolion unigol yn derbyn y cymhwyster yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith bod polisiau derbyn yn fater i ysgolion unigol o fewn sefydliadau yn gyffredinol ac mae'r polisiau'n amrywio rhyngddynt.

97. Er mwyn ceisio goresgyn yr anhawster hwn, cynhaliwyd arolwg gyda sefydliadau addysg uwch. Rhoddodd ymatebion unigol i'r arolwg hwnnw gipolwg

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 255], 22 Tachwedd 2018

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 276], 22 Tachwedd 2018

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 18 Rhagfyr 2018

o safbwyntiau, ond atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gyda'u barn bersonol, yn hytrach nag ar ran y sefydliad y maent yn ei gynrychioli.

98. O ran prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru, clywsom y canlynol:

- mae diffyg cysondeb sylweddol yn y ddealltwriaeth o'r cymhwyster mewn addysg uwch, er bod dealltwriaeth yn cynyddu a chyda hynny lefel y gwerth a briodolir i Bagloriaeth Cymru;¹⁰⁷
- mae'r ffordd y mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei derbyn ar gyfer derbyniadau prifysgol yn amrywio rhwng prifysgolion a rhwng adrannau o fewn prifysgolion;¹⁰⁸
- mae ysgolion wedi datblygu arbenigedd mewn gwybod am brofiad pwnc prifysgolion ac a yw Bagloriaeth Cymru yn cael ei derbyn fwy nag eraill;¹⁰⁹
- mae'r ddealltwriaeth o Bagloriaeth Cymru yn tueddu i fod yn well ym mhrifysgolion Cymru na'r rhai y tu hwnt i'r ffin;¹¹⁰ a
- gall fod gwahaniaeth rhwng polisi prifysgol mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru a phrofiad y polisi hwnnw "ar lawr gwlad".¹¹¹

99. Awgrymodd y dystiolaeth a gawsom fod yr amrywiaeth o ffyrdd y mae prosesau derbyn prifysgolion yn trin y Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys y canlynol:

- ei defnyddio'n gyfochrog â chymwysterau Safon Uwch;
- ei defnyddio i alluogi gwneud cynnig amgen (e.e. gostwng y gofynion gradd mewn pynciau eraill);
- cael effaith gadarnhaol ar ddatganiad personol ymgeisydd oherwydd y sgiliau a ddatblygwyd a'r profiadau a ddarparwyd.¹¹²

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, WB13 – ColegauCymru

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 45 a 47], 14 Tachwedd 2018

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 261], 14 Tachwedd 2018

¹¹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 66], 28 Tachwedd 2018

¹¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 66], 28 Tachwedd 2018

¹¹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 259-261 a 274], 22 Tachwedd 2018

100. Cafwyd peth tystiolaeth yn awgrymu bod myfyrwyr o Gymru dan anfantais o bosibl o'u cymharu â'u cymheiriaid ar draws y ffin. Dadleuwyd y gallai hyn ddigwydd gan y byddai dysgwyr yn gallu cael mwy o gymwysterau Safon Uwch neu rai gwell pe na baent yn gorfod cwblhau Bagloriaeth Cymru Uwch.¹¹³ Rhoddwyd crynodeb o'r sefyllfa hon yn nhystiolaeth Coleg Gŵyr Abertawe:

“Welsh students are fighting for places against Scottish, Northern Irish and, potentially, English students who are studying three subjects, whereas our Welsh students potentially could be doing three A2s, three A-level subjects plus the Welsh Bacc. And, as we talked about earlier on, the Welsh Bacc has evolved into quite a rigorous, you could say complicated, qualification, which puts added pressure on a learner in year 2 when they're trying to get possibly three A* grades. So, I think we need to consider that.”¹¹⁴

101. Pan holwyd Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru, ynghylch derbyniad prifysgolion o Fagloriaeth Cymru, dywedodd:

“The vast majority of universities perceive it very well and there's lots of evidence for that. There are some universities—and there can be quite a lot of emphasis around particular Russell Group universities that don't make offers based on it, but a lot of universities do make offers based on it and value it. [...] it's not all just about offer strategies, it's about the value that's placed on the qualification.”¹¹⁵

102. Aeth Mr Blaker ymlaen i ddweud, lle mae gan brifysgolion safbwynt ar y Dystysgrif Her Sgiliau, ei bod yn bwysig sefydlu a yw'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cymhwyster neu ganfyddiad. Dywedodd mai dyma'r rheswm pam roedd Cymwysterau Cymru wedi penodi Swyddog Cyswllt Addysg Uwch i ymgysylltu â phrifysgolion ledled y DU i egluro i'r prifysgolion hynny nad ydynt o bosibl yn ei chynnwys mewn strategaethau cynnig neu nad oes ganddynt ddatganiad polisi clir ynghylch y Dystysgrif Her Sgiliau i ddeall beth yw sail hynny.¹¹⁶ Tynnodd Mr

¹¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 28 Tachwedd a thystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT ac WB13 – ColegauCymru

¹¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 62], 28 Tachwedd 2018

¹¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 284], 22 Tachwedd 2018

¹¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 287], 22 Tachwedd 2018

Blaker sylw hefyd at y gwaith sy'n mynd rhagddo i greu darlun cynhwysfawr o safbwynt sefydliadau addysg bellach o'r cymhwyster dros y flwyddyn nesaf.¹¹⁷

103. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig dywedodd y Gweinidog Addysg fod pob prifysgol yng Nghymru yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau yn eu cynigion.¹¹⁸ Mewn tystiolaeth lafar, cydnabu'r Gweinidog, er nad yw rhai prifysgolion yn defnyddio Bagloriaeth Cymru fel sail i gynigion, eu bod yn dal i werthfawrogi'r sgiliau a ddarperir gan y Dystysgrif Her Sgiliau.¹¹⁹ Aeth yn ei blaen i ddweud:

“The message I get consistently from universities is that there are significant advantages to Welsh learners taking this qualification [..]

Whilst there is a variety of approaches to how they regard the qualification in terms of offers, consistently, absolutely across the board, all universities tell me that the Welsh baccalaureate is a valuable qualification.”¹²⁰

104. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch y ffaith bod dysgwyr o Gymru dan anfantais bosibl o ganlyniad i astudio Bagloriaeth Cymru, dywedodd y Gweinidog:

“...in the conversations I have had with Russell Group universities, what they say is that there is certainly no detriment to any Welsh student undertaking this qualification. They value the qualification. They think it is useful [..] I think it is a myth—I would go as far as to say that it's a myth—that Welsh students are disadvantaged in any way by taking this qualification.”¹²¹

105. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch tystiolaeth sy'n awgrymu bod rhai myfyrwyr mwy abl a dawnus yn cael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, dywedodd weithiau fod canolfannau dysgu yn penderfynu bod pedwar neu bum cymhwyster Safon Uwch yn fantais i fyfyrwr. Ychwanegodd, fodd bynnag, ei bod yn credu bod prifysgolion Russell Group, a Rhydychen a

¹¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 292-293], 22 Tachwedd 2018

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB23 - Llywodraeth Cymru

¹¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 12 Rhagfyr 2018

¹²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 80 ac 82], 12 Rhagfyr 2018

¹²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 12 Rhagfyr 2018

Chaergrawnt, eisiau myfyrwyr â thri chymhwyster Safon Uwch da a Bagloriaeth Cymru:

“I think that’s really, really an important message to get across—that it is not necessary to do four or five A-levels if you aspire to go to these Russell Group universities, or if you decide you want to apply to Oxford and Cambridge.”¹²²

EIN BARN NI AR GWERTHEDD A THRYLWYREDD

106. Nodwn sicrwydd y Gweinidog bod prifysgolion o fewn Cymru a’r tu allan iddi yn gwerthfawrogi’r sgiliau a ddatblygir fel rhan o Fagloriaeth Cymru a bod y cymhwyster yn ymddangos yn llawer o brosesau derbyn prifysgolion. Fodd bynnag, mae’n amlwg bod canfyddiadau ar lawr gwlad yn wahanol, gyda llawer o ddysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn mynegi pryder nad yw’r cymhwyster yn cael ei dderbyn gan bob prifysgol (gan gynnwys rhai o’r prifysgolion gorau).

107. Mae’r amrywiad sy’n gysylltiedig â’r ffordd y mae cynigion derbyniadau prifysgolion yn trin y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru ehangach yn amlwg wedi cael effaith negyddol ar y canfyddiadau o Fagloriaeth Cymru, a’r dysgwyr a’r athrawon sydd â’r dasg o’i hastudio. Os yw canfyddiadau o werth, cywerthedd a thrylwyredd Bagloriaeth Cymru am wella, credwn fod sefydlu darlun clir o dderbyniad neu fel arall sefydliadau addysg uwch o’r cymhwyster yn rhan hanfodol o’r jig-so. Er y nodwn bwyslais y Gweinidog nad yw myfyrwyr o Gymru dan anfantais oherwydd eu hastudiaeth o Fagloriaeth Cymru, mae’n destun pryder mawr inni fod llawer ohonynt, eu rhieni, a’u hathrawon, yn ystyried bod hyn yn wir. Os mai myth yw hyn, mae angen gwneud mwy i ddangos hynny i’r rhai yr effeithir arnynt fwyaf.

108. Roedd ein hymdrechion i gasglu gwybodaeth am bolisiau prifysgolion yn gymharol aflwyddiannus. O ystyried y pwyslais a roddir ar gywerthedd y cymhwyster, yn enwedig ar gyfer mynediad i addysg uwch, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio fel mater o flaenoriaeth – a chyda Cymwysterau Cymru lle bo’n berthnasol – i sefydlu pa elfennau o Fagloriaeth Cymru sy’n cael eu derbyn ym mha ffordd, a ble, a chyfleu hynny’n glir i ddisgyblion, rhieni a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg.

¹²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 12 Rhagfyr 2018

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i ddarparu rhestr gynhwysfawr o'r prifysgolion hynny sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru yn eu cynigion. Dylai'r rhestr hon gynnwys manylion am sut yn union y mae pob prifysgol yn trin Bagloriaeth Cymru, a ph'un a yw'n:

- cael ei derbyn fel cymhwyster Safon Uwch cyfatebol;
- cael ei defnyddio i alluogi cynnig amgen drwy ostwng y gofynion gradd mewn pynciau eraill;
- cael ei hystyried ddim ond fel rhan o ddatganiad personol ymgeisydd.

109. Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Cymwysterau Cymru er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru, gan gynnwys penodi Swyddog Cyswllt Addysg Uwch i ymgysylltu â cholegau chweched dosbarth a phrifysgolion yng Nghymru a thu hwnt. Fodd bynnag, rydym yn amheus y bydd un person yn gallu gwneud y gwaith hwn ar y cyflymder a'r lefel angenrheidiol, ac yn galw ar Cymwysterau Cymru i ystyried gwneud penodiad(au) ychwanegol i symud y gwaith hwn yn ei flaen ar fwy o gyflymder.

Argymhelliad 4. Bod Cymwysterau Cymru yn ystyried ar unwaith a yw un Swyddog Cyswllt Addysg Uwch yn ddigonol i sefydlu darlun o'r dirwedd addysg uwch mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohoni ar draws y sector. Dylid ailddyrrannu adnoddau yn ôl yr angen i roi mwy o ffocws ar y maes hwn yn ogystal â darparu mwy o gynnydd, gan gynnwys penodi Swyddog(ion) Cyswllt Addysg Uwch ychwanegol os bydd angen.

5. Mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Fagloriaeth Cymru gael ei chynnig yn y rhaglenni dysgu ar gyfer pob dysgwr 16-19 oed, gyda'r nod o fabwysiadu'r cymhwyster yn llawn ar gyfer cofrestru ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Mae pryderon bod dryswch ynghylch a yw Bagloriaeth Cymru yn orfodol a bod dewisiadau dysgwyr yn cael eu lleihau o ganlyniad i hynny, gan effeithio ar eu lles o bosibl.

Polisi Llywodraeth Cymru

110. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd y Gweinidog Addysg fel a ganlyn:

- mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Fagloriaeth Cymru gael ei chynnig i bob dysgwr 16-19 oed, gyda'r nod o fabwysiadu'r cymhwyster yn llawn ar gyfer cofrestru ym mlwyddyn academaidd 2019/20;
- disgwylir i benaethiaid ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth benderfynu ar y dull cywir ar gyfer eu dysgwyr, a fydd yn cynnwys ystyried lles y person ifanc a'i allu i gyrraedd ei botensial;
- er bod canllawiau ar Fagloriaeth Cymru yn nodi eithriadau o fabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol yn achos dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau penodol, nid oes dim meini prawf a all bennu'n gywir benderfyniadau ynghylch pwy arall y gellir ei eithrio - arweinwyr ysgolion a cholegau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu hyn;
- bydd y gyfres newydd o fesurau perfformiad ôl-16 yn cynnwys mesurau ar gyfer Bagloriaeth Cymru, er nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud hyd yma ar pryd fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ysgolion a cholegau unigol.¹²³

111. Mynegodd nifer o dystion bryderon ynghylch anghysondebau wrth fabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Dywedodd UCAC er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cymhwyster gael ei fabwysiadu'n gyffredinol, nid yw'n ei hyrwyddo ei hun. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru:

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB23 - Llywodraeth Cymru

“We have come across cases of parents who have contacted the Welsh Government and demanded to know why the Welsh Bacc was compulsory, to be told by Welsh Government officials, ‘It’s not. [...] And that really cuts the ground under the feet of heads who are trying to do something they think is a really important part of the Welsh education scene.”¹²⁴

112. Roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch rhinweddau mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Eglurodd Jane Harries o Ysgol Uwchradd VC Hwlfordd, er bod penaethiaid yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi ar y naill law i wneud Bagloriaeth Cymru yn orfodol, roedd ganddynt hefyd bryderon ynghylch cyfyngu hawl dysgwyr i arfer dewis. Dywedodd hefyd fod rhai penaethiaid yn amharod i gael “sgyrsiau anodd” gyda rhieni – yn enwedig rhieni disgyblion mwy galluog a thalentog – ac mai'r unig ffordd y gellir cefnogi hyn yw drwy geisio mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol ledled Cymru.¹²⁵

113. O ran hawliau plant, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

“...the implementation of the target of universal adoption in its current form is not in the best interests of all young people, and as such contravenes an important Guiding Principle of the UNCRC.”¹²⁶

114. Cyfeiriodd undebau athrawon, ColegauCymru ac Estyn at achosion o ddysgwyr mewn ardaloedd ar y ffin yn dewis astudio yn Lloegr er mwyn osgoi Bagloriaeth Cymru.¹²⁷ Dywedodd Cymwysterau Cymru mai tystiolaeth anecdotaidd yn unig oedd hon, a bod angen gwaith ymchwil pellach i weld a oedd hyn yn digwydd ac os felly, a oedd yn ymwneud â dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru neu ganfyddiad yn unig.¹²⁸

115. Cyfeiriodd Estyn a Cymwysterau Cymru at sefyllfa gystadleuol yn tyfu rhwng colegau a sefydliadau chweched dosbarth, gan ddefnyddio hyblygrwydd mewn

¹²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 216 a 219], 14 Tachwedd 2018

¹²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 291], 14 Tachwedd 2018

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB10 – Comisiynydd Plant Cymru

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT, WB13 – ColegauCymru, WB14 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, ac WB19 - Estyn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 14 Tachwedd 2018

¹²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 334-335], 22 Tachwedd 2018

perthynas â Bagloriaeth Cymru i farchnata atyniad i ddysgwyr.¹²⁹ Dywedodd cynrychiolwyr addysg bellach nad yw'n cael ei ddefnyddio fel arf recriwtio gan golegau.¹³⁰ Rhoddodd ein hymweliadau i siarad â phobl ifanc am Fagloriaeth Cymru enghreifftiau o bobl ifanc a adawodd un ysgol ar gyfer ysgol neu goleg arall, i osgoi astudio'r cymhwyster. Cafodd y profiad hwn ei ailadrodd gan weithwyr proffesiynol ym maes addysg yn ein grwpiau trafod.¹³¹

116. Credai UCAC fod yr anghysondeb ledled Cymru wrth fabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn golygu ei bod yn cael ei defnyddio fel “arf yn y frwydr” i ddenu dysgwyr ôl-16 a'r cyllid sy'n dod gyda hwy.¹³² Dywedodd ei gynrychiolydd, gan fod y mwyafrif o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi hyrwyddo'r syniad o fabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol, bod disgyblion cyfrwng Cymraeg yn cael eu colli naill ai i golegau neu ysgolion cyfrwng Saesneg nad oeddent yn gofyn i fyfyrwyr ei hastudio.¹³³ Dywedodd UCAC:

“Os yw'r Llywodraeth yn dweud eu bod nhw eisiau i hon gael ei mabwysiadu'n gyffredinol, mae'n rhaid gwneud rhywbeth am hynny, a pheidio â gadael i bob un sefydliad unigol wneud y dewis heb unrhyw fath o naill ai gosb neu gymhelliad.”¹³⁴

117. Tra bod UCAC yn argymhell mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol, roedd NASUWT yn dadlau dros wneud Bagloriaeth Cymru yn ddewisol.¹³⁵ Gwnaeth hynny ar sail ei dealltwriaeth nad yw pob prifysgol yn derbyn Bagloriaeth Cymru, y dystiolaeth anecdotaidd sy'n ymwneud â dysgwyr sy'n agos at y ffin yn dewis astudio yn Lloegr i osgoi gorfod astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, ac effaith honedig y cymhwyster ar feysydd pwnc eraill (gweler pennod 6).

118. Dywedodd ColegauCymru fod pryder sylweddol ymhlith sefydliadau'r sector addysg bellach ynghylch mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol ac a yw gweithrediad y cymhwyster a'i darpariaeth yn ddigon cadarn. Dadleuodd, hyd nes

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 - Estyn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 337], 22 Tachwedd 2018

¹³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 95], 28 Tachwedd 2018

¹³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau grŵp trafod y rhanddeiliaid a Nodiadau o'r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹³² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 112], 14 Tachwedd 2018

¹³³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 114 a 115], 14 Tachwedd 2018

¹³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 118], 14 Tachwedd 2018

¹³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 108], 14 Tachwedd 2018

bod mwy o'r problemau'n cael eu datrys, nad yw mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol yn ddull synhwyrol, yn enwedig ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol.¹³⁶

119. Ni fyddai Cymwysterau Cymru yn cael ei darbwylllo ynghylch rhinweddau mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol, gan nodi ei fod yn fater polisi i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dywedodd Ann Evans, Cadeirydd Cymwysterau Cymru, y byddai mwy o eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan fabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol yng nghyfnod allweddol 4, yr hyn a olygir i golegau, a'r hyn a olygir i sefydliadau chweched dosbarth yn ddefnyddiol:

“...we think it could actually come down to being very specific. We think that that clarity would be incredibly useful—it would be useful for schools and colleges, and it would make life more straightforward for schools and colleges if they knew what the expectations were.”¹³⁷

120. Ychwanegodd Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru:

“We think that the Welsh Government making a clear statement of what is meant by universal adoption, and some clear examples of whether there are exemptions for any reasons—. So, if it's around it being almost mandatory but not entirely mandatory, then what are the exceptions around that? Making a very clear statement about it maybe being mandatory at this level but not at this level. So, there are lots of different variants, and I think that one of the problems is that there are lots of different interpretations.”¹³⁸

121. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog egluro'r sefyllfa o ran mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol, nododd fel a ganlyn:

- roedd yn disgwyl i bob sefydliad fod mewn sefyllfa i ddarparu Bagloriaeth Cymru gan y dylai fod yn hawl i bob myfyriwr yng Nghymru a bod y “norm” i'w dilyn;¹³⁹
- roedd yn cydnabod y gallai fod achosion unigol lle nad yw dilyn Bagloriaeth Cymru yn “gydnaws â lles y myfyriwr penodol hwnnw”;¹⁴⁰

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB13 – Colegau Cymru

¹³⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 311], 22 Tachwedd 2018

¹³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 319], 22 Tachwedd 2018

¹³⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 12 Rhagfyr 2018

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 12 Rhagfyr 2018

- er iddi gydnabod yr angen am hyblygrwydd yn y system, dylai fod tystiolaeth ynghylch pam nad yw unrhyw ddysgwr yn astudio Bagloriaeth Cymru;¹⁴¹
- mae amrywiaeth eang o resymau pam mae dysgwyr yn dewis gadael yr ysgol ar gyfer coleg addysg bellach,¹⁴² ac nid oes tystiolaeth gadarn mai osgoi Bagloriaeth Cymru yw'r unig reswm¹⁴³;
- byddai'n "hapus iawn" i gryfhau'r canllawiau ar fabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol.¹⁴⁴

122. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro na fyddai'n oedi gyda'r polisi mabwysiadu cyffredinol er mwyn aros i ysgolion gyrraedd sefyllfa i ddarparu Bagloriaeth Cymru yn y ffordd y byddai am iddi gael ei darparu:

"...some schools struggle to deliver existing qualifications. I don't know why we turn around and say that this qualification needs to be stopped when we wouldn't stop other qualifications [...] there is a responsibility on us, on individual schools and on our regional consortia to ensure that there is professional learning in place so that all schools are in a position to deliver the qualification well."¹⁴⁵

Yr effaith ar ddysgwyr

123. Cawsom amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys gan undebau athrawon, y Comisiynydd Plant, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a'r dysgwyr eu hunain, a oedd yn mynegi pryderon ynghylch lles myfyrwyr ôl-16. At hynny, nododd adroddiad Estyn ar gymwysterau Safon Uwch ym mis Tachwedd 2018 fod y llwyth gwaith yn sgil y gofyniad i astudio pedwar neu bum pwnc, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru, yn "ffactor sylweddol sy'n achosi straen ymhlith dysgwyr Safon Uwch".¹⁴⁶

124. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

¹⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 12 Rhagfyr 2018

¹⁴² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 163], 12 Rhagfyr 2018

¹⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 159], 12 Rhagfyr 2018

¹⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 145], 12 Rhagfyr 2018

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 183], 12 Rhagfyr 2018

¹⁴⁶ Estyn, [Cyrsiâu safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach](#), Tachwedd 2018

“My office has received cases [...] in which this requirement has been perceived as compromising young people’s future options, has led to conflict between the young person and their teachers, and has increased time-pressures and exam stress for young people.”¹⁴⁷

125. Rhybuddiodd Coleg Sir Benfro o ran “gorlwytho” dysgwyr tra bod cynrychiolwyr addysg bellach eraill yn disgrifio’r cymhwyster fel gormod o bwysau i rai myfyrwyr ymdopi ag ef, yn enwedig os ydynt yn ailsefyll cymwysterau TGAU neu’n ceisio sicrhau graddau da ar gyfer cymwysterau Safon Uwch.¹⁴⁸

Rhybuddiodd Comisiynydd Plant Cymru fod pwysau ar draws cymwysterau hefyd yn cyfyngu ar allu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.¹⁴⁹

126. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn uniongyrchol gan bobl ifanc drwy ein harolwg a’n hymweliadau yn paentio darlun cymysg. Ar yr un llaw, rhoddwyd enghreifftiau o lwythi gwaith Bagloriaeth Cymru sy’n rhy drwm a beichus.¹⁵⁰ Soniwyd bod gwaith prosiect yn cymryd llawer o amser ac roedd teimlad cryf bod gwahanol lefelau Bagloriaeth Cymru yn arwain at ddyblygu ymdrech, gan adael dysgwyr yn aneglur o’r gymhareb “ymdrech i werth”. Clywsom hefyd am lwyth gwaith sy’n effeithio ar raddau ac yn arwain at ddysgwyr yn rhoi’r gorau iddi yn gyfan gwbl.¹⁵¹

127. Yn wahanol i hynny, disgrifiodd rhai o’r bobl ifanc y cymhwyster fel cyfle i ymestyn eu sgiliau, cymryd rhan mewn ymchwil a dysgu mwy annibynnol, a’u paratoi’n well ar gyfer bywyd mewn gwaith neu astudiaeth bellach. Cyfeiriodd rhai hefyd at y ffaith bod cael Bagloriaeth Cymru wedi rhyddhau pwysau i gyflawni canlyniadau Safon Uwch gwell gan fod prifysgolion wedi addasu cynigion i lawr yn sgil y Dystysgrif Her Sgiliau.¹⁵²

128. Dywedodd Cymwysterau Cymru fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn golygu mwy o waith i ddysgwyr, ond ei bod o werth wrth astudio ar gyfer eu cymwysterau eraill. Dywedodd ei gynrychiolwyr efallai mai rhywfaint o’r natur feichus i unigolion yw

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB10 – Comisiynydd Plant Cymru

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB12 – Coleg Sir Benfro, WB13 - Colegau Cymru a’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 39, 54 a 62], 28 Tachwedd 2018

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB10 – Comisiynydd Plant Cymru

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o’r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 a chrynodeb o ganlyniadau’r arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB16 – Coleg Gŵyr Abertawe

¹⁵² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodyn o’r ymweliadau ledled Cymru i siarad â phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 a chrynodeb o ganlyniadau’r arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018

cynhyrchu gormod o bethau nad ydynt o reidrwydd o'r ansawdd iawn ond mai un o nodau'r Grŵp Dylunio yw ei wneud yn fwy hylaw i bawb dan sylw.¹⁵³

129. Er i'r Gweinidog bwysleisio manteision y sgiliau a ddatblygir drwy Fagloriaeth Cymru i bobl ifanc, roedd yn cydnabod y pryderon ynghylch taro cydbwysedd yn y llwyth gwaith. Cydnabu y gallai Bagloriaeth Cymru achosi gofid i rai myfyrwyr o ran lles neu gyfaddawdu cyfleoedd i astudio mwy o gymwysterau Safon Uwch. Dywedodd:

“...we would not want to jeopardise the well-being of a student by forcing them to do a qualification that wasn't in their best interests, and we need to have the flexibility in the system to allow school leaders to make that decision, but they should also then be accountable for that decision.”¹⁵⁴

EIN BARN NI AR FABWYSIADU'R CYMHWYSTER YN GYFFREDINOL A'I EFFAITH

130. Mae diffyg eglurder ynghylch ystyr a gweithrediad polisi Llywodraeth Cymru o ran mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Er bod rhai canolfannau dysgu yn mabwysiadu dull gorfodol o astudio, nid yw eraill yn gwneud hynny. Mewn llawer o achosion, mae'r amrywioldeb hwn wedi arwain at ymdeimlad o annhegwch, ac i ddysgwyr symud o un sefydliad i'r llall er mwyn osgoi Bagloriaeth Cymru. Gall hyn, yn ei dro, effeithio ar gyllid a chapasiti canolfannau dysgu.

131. Rydym yn cydnabod manteision y cymhwyster sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru, a bod canolfannau dysgu sy'n ceisio cyflawni'r weledigaeth hon drwy fabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol yn wynebu heriau gan ddysgwyr a rhieni. Rydym yn pryderu, mewn rhai achosion, ei bod yn ymddangos bod canolfannau'n colli disgyblion i sefydliadau eraill o ganlyniad i hyn. Ymddengys yn anghyfiawn bod y rhai sydd wedi dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru yn cael eu heffeithio fel hyn. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i fod yn glir ynghylch yr hyn a olygir wrth “fabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol” ac i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y cyfyngiadau ar ddewis disgyblion a all ddigwydd os bydd ysgol neu goleg yn dewis (neu'n teimlo gorfodaeth) i fynnu bod disgyblion yn astudio Bagloriaeth Cymru.

¹⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 307], 22 Tachwedd 2018

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 12 Rhagfyr 2018

FEL RHAN O’N HAROLWG AR FAGLORIAETH CYMRU GOFYNNWYD I DDYSGWYR A RHieni/GWARCHIEDWAID SŌN WRTHYM AM EFFAITH Y CYMHWYSTER AR BOBL IFANC.

Soniodd 57 y cant o’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn am yr amser a dreuliwyd ar Fagloriaeth Cymru

Cafwyd y sylwadau a ganlyn:



“roedd yn cymryd llawer iawn o amser”

“mae’n gadael llai o amser i ganolbwyntio ar bynciau eraill”

“mae’n lleihau nifer yr opsiynau pwnc sydd ar gael”

Soniodd 17 y cant o’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn am sgiliau

Cafwyd y sylwadau a ganlyn:



“Mae’n datblygu llawer o sgiliau na ellir eu cael mewn pynciau eraill”

“Gyda’r prosiectau, dysgais sgiliau rwy’n eu defnyddio yn y brifysgol”

“Mae fy mab wedi meithrin neu ddatblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy [...] mae wedi magu hyder, a meithrin sgiliau cyfathrebu a gweithio fel tîm sy’n amhrisiadwy [...] ac yn sicr byddant yn ei baratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol”

“Mae fy mhlentyn eisoes yn dysgu’r sgiliau o fewn cymhwyster Safon Uwch y Dyniaethau”

“Nid oedd yn ychwanegu dim at fy sgiliau personol”

“Nid wyf yn credu bod y wybodaeth a’r sgiliau a geir o’r Fagloriaeth o reidrwydd yn drosglwyddadwy i bynciau eraill”

Soniodd 8 y cant o’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn am straen

Cafwyd y sylwadau a ganlyn:



“Mae’n achosi gormod o straen i fyfyrwyr”

“Mae wedi gwneud fy amser yn yr ysgol yn hynod o anodd gan ei fod yn cymryd llawer o amser”

“Mae’n ychwanegu llawer o bwysau oherwydd mae’n bwysig gwneud yn dda ynddo ond weithiau gall dynnu sylw oddi ar bynciau eraill”

132. Er mwyn goresgyn y tensiwn hwn, cwtogi ar amrywioldeb y dull gweithredu, a lleihau'r ddibyniaeth ar ddehongliadau unigol o'r polisi, mae angen canllawiau clir a manwl gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn a ddisgwylir mewn perthynas â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol.

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau cryfach a mwy manwl ar y polisi sy'n ymwneud â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Dylai'r canllawiau hyn nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, a dylai fod yn destun asesiad trylwyr a chynhwysfawr o effaith ar hawliau plant.

133. Nodwn y dystiolaeth anecdotaidd a gyflwynwyd y gall dysgwyr mewn ardaloedd ar y ffin fod yn dewis astudio yn Lloegr er mwyn osgoi Bagloriaeth Cymru. Nodwn ymhellach y pryderon a fynegwyd ynghylch disgyblion yn gadael yr ysgol ar gyfer coleg er mwyn osgoi astudio'r cymhwyster.

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i gadarnhau:

- a yw dysgwyr mewn ardaloedd ar y ffin yn dewis astudio yn Lloegr er mwyn osgoi Bagloriaeth Cymru; ac
- a yw colegau a sefydliadau chweched dosbarth yn defnyddio hyblygrwydd o ran Bagloriaeth Cymru i farchnata atyniad i ddysgwyr,

ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis ar ei chanfyddiadau.

134. Rydym yn pryderu ynghylch y dystiolaeth a gawsom fod rhai dysgwyr yn ei chael yn anodd ymdopi â'r pwysau a achosir gan y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru. Mae iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn hollbwysig inni. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Cadernid Meddwl yn 2018, credwn fod angen gwneud llawer mwy o waith i sicrhau bod lles person ifanc yn flaenllaw ym mhob agwedd ar ei addysg. Nid yw Bagloriaeth Cymru yn eithriad.

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod iechyd meddwl a lles dysgwyr yn flaenllaw yn yr holl ystyriaethau a'r gweithgarwch y mae'n ymgymryd â hwy mewn perthynas â dyfodol Bagloriaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymgysylltu â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod iechyd meddwl a lles dysgwyr wrth wraidd gwaith ei Grŵp Dylunio.

6. Yr effaith ar y cwricwlwm ac addysg ehangach

Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru ynghyd â diwygiadau addysg ehangach yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at ymestyn amserlenni. O ganlyniad i hyn, ystyrir bod yr opsiynau a'r dewisiadau i ddysgwyr wedi lleihau. Mae llawer yn pryderu nad yw diwygiadau diweddar wedi'u hategu gan yr hyfforddiant, y datblygiad a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymhwyster.

Yr effaith ar y cwricwlwm

135. Roedd effaith Bagloriaeth Cymru ar gynigion cwricwlwm lleol yn thema allweddol yn ein hymchwiliad.

136. Dywedodd NASUWT fod Bagloriaeth Cymru, yng Nghyfnod Allweddol 4, wedi dadleoli dewisiadau opsiwn, gan arwain at "gulhau annerbyniol" y cwricwlwm.¹⁵⁵ Adleisiwyd y farn hon gan Consortia Rhanbarthol Cymru, a ddywedodd fod cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi golygu bod rhai ysgolion wedi lleihau dewisiadau opsiwn TGAU.¹⁵⁶

137. Fodd bynnag, eglurodd UCAC y gellid priodoli tystiolaeth o leihad yn nifer y pynciau sy'n cael eu cymryd yng Nghyfnod Allweddol 4 i ffactorau y tu hwnt i Fagloriaeth Cymru.¹⁵⁷ Eglurodd Gavin Jones o Ysgol Gyfun Caerllion y gallai ffactorau o'r fath gynnwys y pwyslais ar ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd craidd, neu awydd ar ran rhieni a dysgwyr i weld amrywiaeth yn y meysydd pwnc a gynigir.¹⁵⁸ Roedd tystiolaeth Estyn a'r sylwadau a wnaed gan weithwyr

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB18 – Consortia Rhanbarthol Cymru

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 170], 14 Tachwedd 2018

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 314], 14 Tachwedd 2018

proffesiynol ym maes addysg yn ein grwpiau trafod yn tynnu sylw at ystod debyg o bwysau ar y cynnig cwricwlwm.¹⁵⁹

138. Pan holwyd Cymwysterau Cymru a oedd ysgolion wedi lleihau eu dewisiadau pwnc, dywedodd:

“I think it’s inevitable. There’s only so much time available within the curriculum. So, whenever a choice is made that consumes some of that time, it inevitably means that something else has to give. So, I think there’s an inevitability in that. I think it then comes down to what, from a policy perspective, Government considers to be most important in young people’s education and some sense of prioritisation around that [..]

you have to make some value choices about what’s taught and what’s not taught, and it comes back to this notion of universal adoption and what Government’s expectations are in terms of education.”¹⁶⁰

139. Cyfeiriodd Nick Brazil, Dirprwy Bennaeth Coleg Gŵyr Abertawe yn benodol at y dirywiad “dramatig” mewn ieithoedd tramor modern. Dywedodd ei fod yn ymwybodol bod nifer o ysgolion wedi canolbwyntio ar gyflawni Bagloriaeth Cymru yn hytrach na rhoi’r cyfle i astudio iaith dramor fodern.¹⁶¹

140. Cadarnhawyd hyn gan waith ymchwil diweddar a wnaed gan y BBC ar addysgu ieithoedd. Ymatebodd dros hanner yr holl ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru i arolwg y BBC, gyda 71 y cant o’r ymatebwyr hynny yn priodoli’r dirywiad mewn ieithoedd tramor modern i bynciau â blaenoriaeth yn yr amserlen fel mathemateg, gwyddoniaeth a Bagloriaeth Cymru.¹⁶² Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae data Stats Cymru yn dangos y bu gostyngiad o 31 y cant mewn cofrestriadau TGAU iaith yng Nghymru, o 8232 yn 2013/14 i 5673 yn 2017/18.¹⁶³

141. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, er bod y Dystysgrif Her Sgiliau yn “anochel” wedi lleihau dewis, nid yw hynny’n gyfystyr â chulhau’r cwricwlwm. Pwysleisiodd y Gymdeithas bwysigrwydd cydbwysu unrhyw

¹⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 – Estyn a’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 327-328], 22 Tachwedd 2018

¹⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 120], 28 Tachwedd 2018

¹⁶² BBC News, [Foreign languages “squeezed out” of schools in Wales](#), 27 Chwefror 2019

¹⁶³ StatsCymru, [Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU \(disgyblion ym mlwyddyn 11/disgyblion 15 oed\) fesul grŵp pwnc](#)

leihad mewn dewis yn erbyn manteision ac enillion astudio Bagloriaeth Cymru.¹⁶⁴ Roedd y dystiolaeth yn nodi fel a ganlyn:

“We do not believe that studying the WBQ impacts in any negative way on the study of other curriculum subjects. Indeed, we find to the contrary that the skills set developed as part of the SCC can make a very valuable contribution towards more effective study across the board.”¹⁶⁵

142. Soniodd rhai o’r tystion am y cysylltiadau rhwng Bagloriaeth Cymru a’r cwricwlwm newydd. Awgrymodd UCAC fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn cyfateb yn well na phynciau traddodiadol gyda’r cwricwlwm newydd, ac y gallai gwersi ohoni helpu i hwyluso’r broses o bontio o ble rydym ni nawr o ran y cwricwlwm a chymwysterau i ble rydym eisiau bod mewn pum mlynedd.¹⁶⁶ Cytunodd NASUWT, gan nodi:

“The terms of the Welsh Bacc seem [...] to certainly be closer to the philosophy that governs the curriculum reform than the present qualifications are. Indeed, there’s going to have to be a wholesale change in Welsh qualifications so that they dovetail into the curriculum reform.”¹⁶⁷

143. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch effaith Bagloriaeth Cymru ar y cwricwlwm, dywedodd fod ysgolion yn gyfrifol am gynllunio eu cynnig cwricwlwm lleol a bod angen iddynt ddiwallu anghenion eu dysgwyr a’r Mesur Dysgu a Sgiliau¹⁶⁸. Dywedodd:

“I believe that the skills challenge certificate actually does ensure that there is a broad curriculum and that children are exposed to different learning opportunities. And so, rather than narrowing it, I believe the Welsh Bacc helps us to make sure that there is an expansive curriculum, and that lots of different issues are explored in the skills challenge certificate that ensure not just academic skills are developed,

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 313], 14 Tachwedd 2018

¹⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB14 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 93], 14 Tachwedd 2018

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 98], 14 Tachwedd 2018

¹⁶⁸ Er mwyn hwyluso cwricwlwm eang a chytbwys i bob dysgwr, mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion, yn eu cynigion cwricwlwm lleol, ddarparu: yng Nghyfnod Allweddol 4, isafswm o 25 o gyrsiau gydag o leiaf tri chymhwyster galwedigaethol; ar lefel ôl-16, dewis o 30 o gyrsiau, y mae’n rhaid i bump ohonynt fod yn alwedigaethol.

but, actually, knowledge and skills of a wider range of subjects about you and your place in the world is available via this qualification.”¹⁶⁹

144. Ymhelaethodd y Gweinidog, gan ddweud na ddylai Bagloriaeth Cymru fod ar draul pynciau eraill, ond yn rhan o ystod eang o gyfleoedd. Ychwanegodd:

“I don’t think it [the Welsh Bacc] is more important or less important than other aspects of what we already ask schools to deliver.”¹⁷⁰

Cymwysterau galwedigaethol a dysgu i oedolion

145. Pwysleisiodd tystiolaeth ColegauCymru yr angen i ystyried effaith Bagloriaeth Cymru ar gymwysterau galwedigaethol yn ogystal â chymwysterau academaidd. Rhestrodod yr heriau a ganlyn yn sgil Bagloriaeth Cymru:

- nid yw Bagloriaeth Cymru mor berthnasol i ddysgwyr ar gymwysterau ymarferol iawn sy’n seiliedig ar sgiliau sy’n arwain at lwybrau dysgu seiliedig ar waith;
- gall yr allbynnau a’r asesiadau academaidd “ddatgysylltu” myfyrwyr rhag dysgu;
- mae’n anodd gweithredu Bagloriaeth Cymru lle ceir dosbarthiadau o ddysgwyr sy’n oedolion a dysgwyr 16-19 oed sy’n dilyn yr un rhaglen astudio; ac
- mae’r lefelau Cenedlaethol a Sylfaen yn “anymarferol” i’w gweithredu mewn blwyddyn ac yn creu “baich asesu enfawr” gan fod dysgwyr yn aml yn gorfod cwblhau gwaith Bagloriaeth Cymru ac ailsefyll TGAU ochr yn ochr â’u prif raglen waith.¹⁷¹

146. Ar gyfer y dysgwyr hynny sy’n dilyn llwybrau galwedigaethol, nodwyd bod mathau eraill o hyfforddiant sy’n seiliedig ar sgiliau yn well na Bagloriaeth Cymru. Cyfeiriodd Kay Martin o Goleg Caerdydd a’r Fro at raglenni fel WorldSkills a Career Ready, gan awgrymu y gallent fod yn fwy gwerthfawr i ddysgwyr galwedigaethol a chyflogwyr.¹⁷² Ychwanegodd Dafydd Evans, Cadeirydd ColegauCymru a Phrif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai:

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 12 Rhagfyr 2018

¹⁷⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 12 Rhagfyr 2018

¹⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB13 – ColegauCymru

¹⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 74], 28 Tachwedd 2018

“...although we always try and put the learner first, funding does drive behaviours, and the Welsh Bacc is fundable; Career Ready isn't. So, yes, there are options out there, but because we're so focused on qualifications and we will only fund qualifications, that drives certain behaviours.”¹⁷³

147. Pan holwyd Cymwysterau Cymru ynghylch effaith Bagloriaeth Cymru ar y rheini sy'n dilyn llwybr galwedigaethol, dywedodd ei fod yn gymhwyster sy'n addas i bob dysgwr:

“The skills are skills that all pupils and students need to take them forward into higher education or into employment. If you talk to HE or to employers, these are the skills they talk about, and so why wouldn't you want people to be doing these skills?”¹⁷⁴

Yr effaith ar athrawon

148. Roedd effaith Bagloriaeth Cymru ar lwythi gwaith athrawon a diffyg parhad wrth addysgu'r cymhwyster yn themâu allweddol yn ein hymchwiliad.

149. Dywedodd Estyn wrthym fod mwyafrif yr ysgolion yn rhoi pwyslais annigonol ar ddarparu'r amser, yr adnoddau a'r hyfforddiant i gefnogi'r broses o addysgu Bagloriaeth Cymru yn effeithiol, sy'n cael effaith negyddol ar agweddau athrawon tuag ati.¹⁷⁵ Nodwyd natur feichus y gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â'r cymhwyster hefyd fel rhywbeth sy'n cyfrannu at bwysau a chanfyddiadau negyddol.¹⁷⁶

150. Dywedodd undebau addysg eu bod yn cael trafferth dod o hyd i athrawon sy'n arbenigo mewn addysgu Bagloriaeth Cymru a bod hyfforddiant i athrawon wedi bod yn annigonol.¹⁷⁷ Pwysleisiodd UCAC bwysigrwydd addysg gychwynnol athrawon yn hyn o beth.¹⁷⁸ Eglurodd gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a fynychodd ein grŵpiau trafod fod natur y Dystysgrif Her Sgiliau mor wahanol i gymwysterau eraill nad oedd gan athrawon hyder yn ei darparu.¹⁷⁹ Ychwanegodd

¹⁷³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 32], 28 Tachwedd 2018

¹⁷⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 322], 22 Tachwedd 2018

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB19 – Estyn

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB14 – Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

¹⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB11 – NASUWT ac WB22 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

¹⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WB06 – Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth

Cymwysterau Cymru po hiraf yr oedd athrawon wedi ei dysgu, y mwyaf hyderus y daethant.¹⁸⁰

151. Soniodd y gweithwyr proffesiynol ym maes addysg am yr angen i rannu arfer gorau ymhlith canolfannau dysgu a rhyngddynt. Er eu bod yn cydnabod bod rhwydweithiau da yn bodoli mewn rhai mannau yng Nghymru, roeddent yn credu bod angen gwneud mwy o waith.¹⁸¹

152. Soniodd y gweithwyr proffesiynol am y diffyg deunyddiau a oedd yn cefnogi Bagloriaeth Cymru yn ein grwpiau trafod, a soniodd UCAC am ddiffyg adnoddau Cymraeg yn benodol.¹⁸² Dywedodd y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â hwy fod y diffyg gwerslyfrau ac adnoddau yn gwneud addysgu a deall Bagloriaeth Cymru yn fwy heriol.¹⁸³

153. Amlygwyd pwysigrwydd rôl Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru a/neu adran sydd wedi'i neilltuo i'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ein grwpiau trafod.¹⁸⁴ Pwysleisiwyd bod yr adnoddau, yr amser a'r cydlyniad y gallant eu rhoi i'r cymhwyster yn hanfodol i'w lwyddiant ac i allu staff eraill i'w gefnogi. Ailadroddodd Hannah O'Brien o Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru y pwyntiau hyn mewn tystiolaeth lafar, gan ychwanegu:

“...it's down to the quality of the co-ordinator as well, not just the leadership, but the Welsh Bacc co-ordinator, how much time they've got for planning, preparing, delivering and supporting their members who are doing the qualification with pupils, and whether they're the right person as well doing it, and whether they've been supported enough as well to get everything done. It is a very robust qualification and a lot of time needs to go into that, and if that co-ordinator doesn't have enough time, then certainly the members of staff are not going to have the time either.”¹⁸⁵

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 240], 22 Tachwedd 2018

¹⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, WB06 - Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹⁸³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹⁸⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Nodiadau o drafodaeth y grŵp rhanddeiliaid, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019

¹⁸⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 86], 14 Tachwedd 2018

154. Awgrymodd cynrychiolwyr addysg bellach mai'r athrawon sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar Fagloriaeth Cymru yw arbenigwyr galwedigaethol, o ystyried y gorgyffwrdd mewn sgiliau.¹⁸⁶

155. Cydnabu Cymwysterau Cymru nad yw'r cydbwysedd rhwng addysgu, dysgu ac asesu fwy na thebyg yn y lle iawn.¹⁸⁷ Dywedodd ei gynrychiolwyr fod tystiolaeth yn awgrymu bod gofyn i athrawon ei darparu oherwydd gofod yn eu hamserlenni yn hytrach na lefel eu hyfforddiant neu arbenigedd.¹⁸⁸ Maent yn dadlau bod yn rhaid mynd i'r afael â hyn drwy addysg gychwynnol athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus, arweinyddiaeth ysgolion a hyfforddiant proffesiynol a ddarperir gan CBAC fel y corff dyfarnu.¹⁸⁹ Ychwanegwyd bod y sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus presennol yn "dda ac o ansawdd uchel".¹⁹⁰

156. Cydnabu'r Gweinidog Addysg natur feichus y cymhwyster a'r effaith ar lwyth gwaith athrawon, gan dynnu sylw at gasgliadau tebyg yn Adroddiad Wavehill. Cyfeiriodd at y ffaith bod y materion hyn bellach yn cael sylw mewn ymateb i argymhellion yr Adroddiad.

157. Mewn perthynas â'r galwadau am well addysg gychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, amlygodd y Gweinidog y canlynol:

- cyfleoedd presennol drwy'r consortia rhanbarthol am gymorth i addysgu'r cymhwyster;
- adnoddau a chymorth presennol CBAC;
- wrth i'r dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol gael ei gyflwyno, ystyrir anghenion dysgu proffesiynol y rhai sydd eisoes yn y system;
- tra bod achrediad ar gyfer addysg gychwynnol athrawon newydd yn cael ei drin yn bennaf o ran y gallu i ddarparu'r cwricwlwm newydd hwnnw, mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r addysgeg sy'n gysylltiedig â hynny wedi'u halinio'n agos â'r Dystysgrif Her Sgiliau.¹⁹¹

¹⁸⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 132-133], 28 Tachwedd 2018

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 306], 22 Tachwedd 2018

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 343], 22 Tachwedd 2018

¹⁸⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 345], 22 Tachwedd 2018

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, [paragraff 345], 22 Tachwedd 2018

¹⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 19], 12 Rhagfyr 2018

EIN BARN NI AR YR EFFAITH AR Y CWRICWLWM AC ADDYSG EHANGACH

158. Rydym yn cefnogi cwricwlwm eang ac amrywiol i ddysgwyr yng Nghymru. Rydym yn dilyn yn agos y diwygiad cwricwlwm unwaith mewn cenhedlaeth sydd ar y gweill o ganlyniad i adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yr Athro Graham Donaldson.

159. Er na ellir gwadu bod cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau a diwygiadau addysg ehangach yn gadael llai o gapasiti yn yr amserlen ar gyfer dysgu arall, rydym yn bryderus ynghylch adroddiadau bod hyn wedi arwain at ganfyddiad o gulhau yn y cwricwlwm, gyda'r effaith ar ieithoedd tramor modern yn enghraifft arbennig gan rai tystion. Os caiff ei dylunio a'i gweithredu'n effeithiol, dylai Bagloriaeth Cymru ehangu sgiliau a phrofiadau dysgwyr. Serch hynny, fel y cydnabyddir mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mae gweithredu Bagloriaeth Cymru ymhell o fod yn berffaith ac mae angen gwella'r canfyddiadau a'r ddealltwriaeth o'r cymhwyster yn yr un modd.

Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i fonitro'n barhaus effaith Bagloriaeth Cymru a diwygiadau addysg eraill ar y cwricwlwm ehangach.

160. Rydym yn bryderus o glywed am yr effaith ar athrawon o ran gwendidau mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru, yn enwedig natur feichus ei hasesiad a diffyg honedig o adnoddau. Rydym hefyd yn bryderus o glywed am amrywioldeb sgiliau a hyfforddiant y rhai sy'n ei darparu. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2017 ar addysg a dysgu proffesiynol athrawon, heb hyfforddiant ac addysg ddigonol i'n gweithlu addysgu, ni chyflawnir diwygiadau uchelgeisiol.

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r modd y caiff Bagloriaeth Cymru ei darparu drwy:

- sicrhau bod addysg gychwynol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus yn addas at y diben ar gyfer ei darparu;
- sicrhau bod system ar gyfer rhannu arfer gorau yn cael ei sefydlu ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru;
- cyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu'r disgwyliad y bydd pob ysgol yn dilyn arfer gorau drwy gael Cydlynnydd Bagloriaeth Cymru dynodedig ac arbenigol;
- archwilio a oes angen deunyddiau/adnoddau Bagloriaeth Cymru gwell, ac os felly, eu darparu.

161. Rhaid dysgu gwersi o'r cyfnod ers cyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd yn 2015 er mwyn osgoi problemau tebyg yn y gweithlu, camdybiaethau a diffyg dealltwriaeth mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Er y credwn fod gan Fagloriaeth Cymru a'r cwricwlwm newydd y potensial i gyflwyno gwelliannau eang ac arloesol i ddysgwyr, rhieni, athrawon, ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr fel ei gilydd, os nad ydynt yn cael eu cyfleu, eu deall a'u hariannu'n dda, ar y gorau byddwn yn symud ymlaen yn araf, ac ar y gwaethaf byddwn yn llithro'n ôl.

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ers cyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd yn 2015 yn cael eu hadolygu'n systematig a'u defnyddio ochr yn ochr â chasgliadau Adroddiad Wavehill a'r canlyniadau sydd i ddod yn sgil gwaith Grŵp Dylunio Cymwysterau Cymru i lywio'r gwaith o ddylunio, gweithredu, darparu adnoddau a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
14 Tachwedd 2018	Hannah O'Neill, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru Neil Butler, NASUWT Rebecca Williams, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, UCAC Roger Vaughan, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, UCAC Tim Pratt, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Gavin Jones, Ysgol Gyfun Caerllion Jane Harries, Ysgol Uwchradd Hwlfordd
22 Tachwedd 2018	Philip Blaker, Cymwysterau Cymru Ann Evans, Cymwysterau Cymru Emyr George, Cymwysterau Cymru
28 Tachwedd 2018	Dafydd Evans, ColegauCymru a Grŵp Llandrillo Menai Kay Martin, ColegauCymru a Choleg Caerdydd a'r Fro Nick Brazil, ColegauCymru and Coleg Gŵyr Abertawe Dr Rachel Bowen, ColegauCymru Ed Evans, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil yng Nghymru
12 Rhagfyr 2018	Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg Kevin Palmer, Llywodraeth Cymru Andrew Clark, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Sefydliad	Cyfeirnod
Unigolyn (Saesneg yn unig)	WB 01
Unigolyn (Saesneg yn unig)	WB 02
Unigolyn (Saesneg yn unig)	WB 03
Cyngor Ieuenctid Conwy (Saesneg yn unig)	WB 04
Unigolyn (Saesneg yn unig)	WB 05
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru	WB 06
Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (Saesneg yn unig)	WB 07
Unigolyn (Saesneg yn unig)	WB 08
Undeb Prifysgolion a Cholegau (Saesneg yn unig)	WB 09
Comisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)	WB 10
NASUWT (Saesneg yn unig)	WB 11
Coleg Sir Benfro (Saesneg yn unig)	WB 12
Colegau Cymru (Saesneg yn unig)	WB 13
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Saesneg yn unig)	WB 14
Cynghrair Dysgu Byd-Eang Cymru (Saesneg yn unig)	WB 15
Coleg Gŵyr Abertawe (Saesneg yn unig)	WB 16
Comisiynydd y Gymraeg	WB 17
Consortia Rhanbarthol Cymru (Saesneg yn unig)	WB 18
Estyn (Saesneg yn unig)	WB 19
UCAS (Saesneg yn unig)	WB 20
CITB Cymru (Saesneg yn unig)	WB 21
Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)	WB 22
Llywodraeth Cymru	WB 23